Senedd Cymru
**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**

# Cyllid datblygu rhanbarthol ar ôl gadael yr UE

Medi 2023



senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddEconomi**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddEconomi@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddEconomi**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2022**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**

# Cyllid datblygu rhanbarthol ar ôl gadael yr UE

Medi 2023

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddEconomi**

---

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Paul Davies AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Hefin David AS**
Llafur Cymru



**Luke Fletcher AS**
Plaid Cymru



**Samuel Kurtz AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Vikki Howells AS**
Llafur Cymru



**Buffy Williams AS**
Llafur Cymru

---

## Roedd yr Aelod a ganlyn hefyd yn aelod o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn.



**Sarah Murphy AS**
Llafur Cymru

# Cynnwys

**Rhagair y Cadeirydd** .......... **5**

**Argymhellion** .......... **7**

**1. Cefndir** .......... **10**

Y Gronfa Ffyniant Gyffredin .......... 10

Y Gronfa Ffyniant Bro .......... 11

Craffu Seneddol ar drefniadau cyllido newydd .......... 12

Cylch gorchwyl yr ymchwiliad .......... 14

Casglu tystiolaeth ac ymgysylltu .......... 15

**2. Effaith Cronfeydd Strwythurol yr UE ar Gymru** .......... **16**

Barn y Pwyllgor .......... 18

**3. Swm y cyllid a gafodd Cymru** .......... **19**

Barn y Pwyllgor .......... 22

**4. Targedu cyllid** .......... **23**

Barn y Pwyllgor .......... 26

**5. Cynllun a gweithrediad y cronfeydd** .......... **27**

Y dull lleol o ran y gronfa .......... 28

Rôl Llywodraeth Cymru .......... 35

Amserlenni i sefydlu a darparu'r gronfa .......... 41

Gweinyddiaeth awdurdodau lleol o'r gronfa .......... 44

Cymorth i awdurdodau lleol ddarparu'r gronfa .......... 45

Ychwanegedd .......... 47

Barn y Pwyllgor ..... 48

**6. Cynaliadwyedd, recriwtio a chadw ..... 51**

Barn y Pwyllgor ..... 54

**7. Y rhaglen Lluosi ..... 56**

Barn y Pwyllgor ..... 60

**8. Y Gronfa Ffyniant Bro ..... 62**

Barn y Pwyllgor ..... 64

**9. Cyllid yn y dyfodol y tu hwnt i 2025 ..... 66**

Barn y Pwyllgor ..... 68

**Atodiad 1: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar ..... 69**

**Atodiad 2: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig ..... 71**

Gwybodaeth Ychwanegol ..... 72

# Rhagair y Cadeirydd

Pan oedd y DU yn aelod, yr M4 oedd y ffordd fwyaf economaidd anghyfartal yn yr UE. Mae'n cysylltu Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, lle roedd CMC fesul pen tua 70 y cant o gyfartaledd yr UE, a Llundain, lle roedd CMC fesul pen 'Gorllewin Llundain Fewnol' ymhell dros 600 y cant o gyfartaledd yr UE. Dros sawl cylch cyllido, buddsoddodd yr UE yng Nghymru, yn enwedig yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, gydag uchelgais i gau'r bwlch hwnnw.

Cafodd Llywodraeth y DU ei hethol ar lwyfan 'Ffyniant Bro', sef dileu anghydraddoldeb daearyddol ar draws y DU drwy wella deinamigrwydd ac arloesedd economaidd i sbarduno twf ar draws y wlad gyfan. I ategu'r nod hwn, cyflwynodd Llywodraeth y DU y Gronfa Ffyniant Gyffredin. Mae'r gronfa'n disodli cyllid yr UE, ond mae Gweinidogion y DU yn awyddus i bwysleisio nad yw'n olynydd uniongyrchol.

Mae gwella economi Cymru, yn enwedig cynyddu cyfleoedd economaidd mewn ardaloedd incwm is, yn flaenoriaeth y mae pawb yn gallu cytuno arni. Gall y Gronfa Ffyniant Gyffredin fod yn gonglfaen y nod hwn; ond bu sawl problem gychwynnol gyda'r cylch cyllido cyntaf.

Clywsom dystiolaeth gref yn cefnogi newid tuag at ddarpariaeth leol – grymuso cymunedau i fynd i'r afael â phroblemau lleol drwy eu hawdurdod lleol. Fodd bynnag, nid oedd y dull hwn yn berffaith, gyda sefydliadau sy'n gweithio ar draws ffiniau cynghorau'n wynebu heriau sylweddol. Yn ogystal, mae'n debyg bod lle i gydgysylltiad ledled Cymru y gallai gael ei wella drwy fwy o gyfranogiad gan Lywodraeth Cymru yn y gronfa.

Mae'n siomedig mai'r agwedd fwyaf nodedig ar lansio'r Gronfa Ffyniant Gyffredin i'r rhan fwyaf o bobl yng Nghymru fydd yr anghytundeb rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ynghylch faint o gyllid y bydd Cymru yn ei gael. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno 24 o argymhellion, yn canolbwyntio'n bennaf ar ddyluniad y gronfa. Mae llawer o'r argymhellion hyn yn tynnu sylw at

gydweithredu a chydweithio rhwng llywodraethau ar bob lefel i sicrhau dull unedig o gyllido ac i gefnogi sefydliadau sy'n gwneud cais am gyllid gan sawl awdurdod lleol.

Ni fydd y Gronfa Ffyniant Gyffredin byth yr unig ateb i anghydraddoldeb economaidd rhanbarthol. Fodd bynnag, er mwyn iddi fod yn gonglfaen yn y nod pwysig hwnnw, mae'n rhaid dysgu gwersi o gyflwyno'r cylch cyllido cyntaf hwn. Rwy'n gobeithio y bydd yr argymhellion yn yr adroddiad hwn yn cael eu cofleidio gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, ac y byddant yn dod yn sylfaen ar gyfer ail gylch a chylchoedd dilynol llwyddiannus o gyllid ffyniant cyffredin.



**Paul Davies AS**
Cadeirydd

# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Cyn cyhoeddi unrhyw gylch ariannu datblygu rhanbarthol ar ôl gadael yr UE yn y dyfodol, dylai Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru geisio cytuno ar safbwynt cyffredin o ran amseriad ei gyflwyno a chwantwm y cyllid . ........................................................................................................................................... Tudalen 22

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth y DU sicrhau bod y cylch nesaf o gyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn ystyried maint poblogaeth ardaloedd difreintiedig. ........................................................................................................................................... Tudalen 26

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth y DU ystyried sut y gallai Llywodraeth Cymru gynorthwyo i ddarparu a dylunio cylch nesaf y Gronfa Ffyniant Gyffredin. ........................................................................................................................................... Tudalen 49

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU gynnal adolygiad i weld a ddylai gwahanol elfennau'r Gronfa Ffyniant Gyffredin gael eu darparu ar lefel leol, ar lefel ranbarthol neu ar lefel Cymru gyfan, yn seiliedig ar yr hyn sy'n gweithio orau. ........................................................................................................ Tudalen 49

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth y DU werthuso'r dull rhanbarthol o ddarparu'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yng Nghymru. Dylai hyn ystyried sut y mae dull awdurdodau lleol o wneud penderfyniadau unigol o fewn fframwaith rhanbarthol yn diwallu anghenion sefydliadau sy'n ceisio cyllid, a hefyd a yw'r dull hwn yn rhoi mwy o faich o ran monitro a gwerthuso nag y mae awdurdodau lleol unigol yn Lloegr yn ei wynebu. .................................................................................................. Tudalen 50

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth y DU, gan weithio gyda Llywodraeth Cymru, sefydlu corff Cymru gyfan i gefnogi gwaith cydgysylltu rhanbarthol wrth ddarparu'r Gronfa Ffyniant Gyffredin. ............................................................................ Tudalen 50

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth y DU flaenoriaethu gweithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau nad yw'r ymyriadau sy'n cael eu hariannu a'u darparu drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn dyblygu'r rhai sydd eisoes ar waith. Dylai Llywodraeth y DU gynnwys Llywodraeth Cymru yn y gwaith hwn. .............. Tudalen 50

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth y DU gytuno ar gyfnod cyllido hwy ar gyfer cylchoedd cyllido'r Gronfa Ffyniant Gyffredin ar ôl 2025. Dylai'r cytundeb hwn gael ei wneud gyda mewnbwn gan Lywodraeth Cymru, a dylai hyn gynnwys digon o amser i gyllidwyr, a'r rhai sy'n ymwneud â phrosiectau, gynllunio a chyflwyno rhaglenni a phrosiectau sy'n sicrhau'r buddion mwyaf. ......................................... Tudalen 50

**Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth y DU sicrhau bod ei gwerthusiad o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn canolbwyntio'n ddigonol ar brofiad sefydliadau a leolir yng Nghymru, a'i bod yn cynnal ac yn cyhoeddi ymarfer o'r gwersi a ddysgwyd fel rhan o'i strategaeth werthuso. ........ Tudalen 50

**Argymhelliad 10.** O ystyried y pryderon a godwyd gan rai sefydliadau bod awdurdodau lleol mewn rhai rhannau o Gymru yn blaenoriaethu eu prosiectau eu hunain ar gyfer cyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin, dylai Llywodraeth y DU edrych ymhellach i hyn a chymryd unrhyw gamau angenrheidiol i sicrhau bod pob sefydliad yn cael cyfle i elwa ar y cyllid hwn. ........ Tudalen 50

**Argymhelliad 11.** Dylai Llywodraeth y DU adolygu ei dull o lunio canllawiau ar y Gronfa Ffyniant Gyffredin i sicrhau'r eglurder mwyaf posibl i awdurdodau lleol, gan ystyried y bydd gan awdurdodau lleol Cymru lai o brofiad o weithio'n uniongyrchol â Llywodraeth y DU nag awdurdodau Lloegr. ........ Tudalen 50

**Argymhelliad 12.** Dylai Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ystyried ailedrych ar ofynion ynghylch ychwanegedd ar gyfer unrhyw ffrydiau cyllido datblygu economaidd yn y dyfodol. ........ Tudalen 50

**Argymhelliad 13.** Dylai Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru gyfleu sut y maent yn ymgysylltu ac yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau'r gwerth gorau o gyfran Cymru o wariant ymchwil ac arloesi y tu allan i Lundain a de-ddwyrain Lloegr. ........ Tudalen 55

**Argymhelliad 14.** Dylai Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ymrwymo i'r cyfarfod 6 ffordd gyda'r Prifysgolion, eu cyrff llywodraethu, UCU Cymru a CCAUC, i drafod cyllid pontio ar gyfer y gwyddonwyr a'r staff cysylltiedig a fydd yn colli eu swyddi eleni o ganlyniad i dynnu cronfeydd strwythurol yn ôl, fel y cynigiodd TUC Cymru ac UCU Cymru. ........ Tudalen 55

**Argymhelliad 15.** Dylai Llywodraeth y DU weithio ar y cyd â Llywodraeth Cymru i ddatblygu cynllun tymor hwy i ddiogelu ymchwil ac arloesi yn y sector Addysg Uwch yng Nghymru. ........ Tudalen 55

**Argymhelliad 16.** Dylai Llywodraeth y DU ystyried pryderon awdurdodau lleol yng Nghymru ynghylch rhai o'r gofynion ar gyfer cyllid Lluosi, a chymryd unrhyw gamau a fyddai'n sicrhau'r gwerth gorau am arian yr ymrwymwyd iddo gyda'r prosiect hwn. Gallai hyn gynnwys caniatáu amser ychwanegol i awdurdodau lleol wario eu dyraniad. ........ Tudalen 61

**Argymhelliad 17.** O ystyried bod y rhaglen Lluosi yn gweithredu mewn gofod datganoledig, dylai Llywodraeth y DU gynnwys Llywodraeth Cymru wrth ddatblygu unrhyw raglen olynol. Tudalen 61

**Argymhelliad 18.** O ystyried y pryderon a godwyd gan awdurdodau lleol, dylai Llywodraeth y DU ystyried a ddylai unrhyw gronfa olynol i Lluosi hefyd ganolbwyntio ar lythrennedd a sgiliau digidol er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf posibl i'r rhai a fyddai'n elwa fwyaf o'r cynllun. Dylid ymgynghori â Llywodraeth Cymru fel rhan o'r ystyriaethau hyn. Tudalen 61

**Argymhelliad 19.** Dylai Llywodraeth y DU weithio gyda Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol a cholegau i nodi a mynd i'r afael ag unrhyw achosion o ddyblygu o ganlyniad i'r rhaglen Lluosi. Tudalen 61

**Argymhelliad 20.** Os bydd y Gronfa Ffyniant Bro yn parhau ar ôl 2025, ni ddylai gael ei darparu drwy geisiadau cystadleuol, a dylid dyrannu cyllid i'r ardaloedd hynny sydd â'r angen mwyaf. Tudalen 65

**Argymhelliad 21.** Os bydd y Gronfa Ffyniant Bro yn parhau ar ôl mis Mawrth 2025, neu'n cael ei symleiddio'n gronfa ehangach, dylai fod gan Lywodraeth Cymru fwy o rôl yn ei datblygiad ac yn y broses o gytuno ar sut y caiff ei gweinyddu. Tudalen 65

**Argymhelliad 22.** Dylai Llywodraeth y DU egluro pryd y bydd Cylch 3 o'r Gronfa Ffyniant Bro yn agor cyn gynted â phosibl. Tudalen 65

**Argymhelliad 23.** Dylai Llywodraeth y DU barhau i weithredu Cronfa Ffyniant Gyffredin ar wahân, ond wedi'i diwygio, ar ôl i'r gronfa bresennol ddod i ben ym mis Mawrth 2025. Tudalen 68

**Argymhelliad 24.** Dylai Llywodraeth y DU egluro beth yw ei bwriad o ran y Gronfa Ffyniant Bro a'r Gronfa Ffyniant Gyffredin ar ôl 2025 cyn gynted â phosibl. Tudalen 68

# 1. Cefndir

Yn ei gyfarfod ar 16 Chwefror, cytunodd y Pwyllgor i gynnal ymchwiliad i gyllid datblygu rhanbarthol ar ôl gadael yr UE, a hynny yn dilyn cyhoeddi adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar drefniadau ariannu ar ôl gadael yr UE ym mis Hydref. Daeth yr adroddiad hwnnw i'r casgliad "nad yw Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn ystyried sut y mae'r cyllid newydd a gynigir i Gymru yn cymharu â'r cyllid a dderbyniwyd tra roedd y DU yn aelod o'r UE, yn yr un ffordd."

**1.** Ar 1 Ionawr 2021, daeth y Cytundeb Masnach a Chydweithredu ("y Cytundeb") i rym gan sefydlu perthynas y DU â'r UE ar gyfer y dyfodol. Fel rhan o'r Cytundeb, ni fydd y DU yn defnyddio cylchoedd rhaglenni cyllid strwythurol yr UE yn y dyfodol. Gan ddefnyddio pwerau o Ddeddf Marchnad Fewnol y DU 2020, mae Llywodraeth y DU wedi datblygu cynlluniau cyllido newydd ledled y DU, gan gynnwys:

- Cronfa Adfywio Cymunedol y DU (y rhaglen beilot ar gyfer y Gronfa Ffyniant Gyffredin);
- Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU;
- Y Gronfa Ffyniant Bro.

**2.** Canolbwyntiodd ymchwiliad y Pwyllgor ar Gronfa Ffyniant Bro a Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU, yn hytrach na ffrydiau ariannu eraill megis cyllid amaethyddol a Horizon Europe.

## Y Gronfa Ffyniant Gyffredin

**3.** Y Gronfa Ffyniant Gyffredin yw rhaglen newydd Llywodraeth y DU sy'n cymryd lle Cronfeydd Strwythurol yr UE. Bydd yn buddsoddi mewn cymunedau a lle; cefnogi busnesau; a phobl a sgiliau. Cadarnhaodd Cyllideb ac Adolygiad o Wariant yr Hydref 2021 mai £2.6 biliwn fydd gwerth y Gronfa Ffyniant Gyffredin

dros dair blynedd rhwng 2022 a 2025. Mae hyn yn cynnwys swm wedi'i neilltuo ar gyfer rhaglen rhifedd oedolion y DU gyfan, sef Lluosi.

**4.** Cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei phrosbectws ar gyfer y gronfa ym mis Ebrill 2022. Cadarnhaodd nodyn methodolegol a oedd yn cyd-fynd â hyn y bydd Cymru yn cael £585 miliwn dros y cyfnod hwn - £89 miliwn yn 2022-23, £153 miliwn yn 2023-24 a £343 miliwn yn 2024-25.

**5.** Mae'r gronfa'n cael ei darparu'n rhanbarthol yng Nghymru, gan ddefnyddio'r un ardaloedd â'r pedair Bargen Dinesig a Thwf. Mae awdurdod arweiniol ym mhob ardal - Ceredigion ar gyfer y canolbarth, Gwynedd ar gyfer y gogledd, Rhondda Cynon Taf ar gyfer y de-ddwyrain, ac Abertawe ar gyfer y de-orllewin. Bydd yr awdurdod arweiniol yn derbyn dyraniad ardal i'w reoli, a fydd yn cynnwys asesu a chymeradwyo ceisiadau, prosesu taliadau a gwaith monitro pob dydd. Gall awdurdodau lleol eraill yn y rhanbarth hefyd ysgwyddo'r prif gyfrifoldeb am raglen neu ymyriad penodol.

**6.** Cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei bod wedi cymeradwyo'r cynlluniau buddsoddi ar gyfer pob ardal yn y DU ar 5 Rhagfyr 2022. Roedd yn ofynnol i gynllun buddsoddi gael cymeradwyaeth Llywodraeth y DU er mwyn gallu cael gafael ar gyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin. Mae ardaloedd lleol wedi dechrau gweithredu eu cynlluniau dros y misoedd diwethaf.

## Y Gronfa Ffyniant Bro

**7.** Mae'r Gronfa Ffyniant Bro yn gronfa gystadleuol a fydd ar waith tan 2024-25, lle mae awdurdodau lleol yn gwneud cais i gyflawni seilwaith sy'n gwella bywyd bob dydd. Fe'i nodwyd gyntaf fel cronfa ar gyfer Lloegr yn unig yn Adolygiad o Wariant 2020 (Tachwedd 2020), a'i hehangu wedyn i gynnwys y DU gyfan. Roedd ail gylch y gronfa yn canolbwyntio ar brosiectau trafnidiaeth, buddsoddi ac adfywio diwylliannol a buddsoddi mewn canol trefi, a chyhoeddwyd y prosiectau llwyddiannus ym mis Ionawr 2023.

**8.** Gall pob awdurdod lleol gyflwyno un cais ar gyfer blaenoriaethau buddsoddi'r gronfa fesul etholaeth sydd yn gyfan gwbl neu'n rhannol o fewn eu ffiniau, a gallant hefyd gyflwyno un cais trafnidiaeth. Ar gyfer yr ail gylch ariannu, tynnwyd unrhyw geisiadau llwyddiannus a oedd gan awdurdod lleol yn y cylch cyntaf o geisiadau o nifer y cynigion yr oedd yn gallu eu cyflwyno.

**9.** Mae gwahanol awdurdodau lleol wedi cael eu blaenoriaethu ar wahanol lefelau ar gyfer y gronfa yn ôl Mynegai Lle â Blaenoriaeth.[1] Diweddarwyd hwn ar gyfer yr ail gylch ariannu, lle’r oedd 19 o’r 22 awdurdod lleol yng Nghymru yn y categori blaenoriaeth 1 (y flaenoriaeth uchaf), gyda Sir y Fflint ac Ynys Môn yng nghategori blaenoriaeth 2 a Sir Fynwy yng nghategori blaenoriaeth 3.

**10.** Cafodd y prosiectau a oedd yn derbyn arian o gylch cyntaf y gronfa eu cyhoeddi ym mis Hydref 2021. Yng Nghymru, dyfarnwyd £121.4 miliwn o gyllid i brosiectau yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro, Powys, Rhondda Cynon Taf a Wrecsam. Cafodd y prosiectau a oedd yn derbyn arian o ail gylch y gronfa eu cyhoeddi ym mis Ionawr 2023. Yng Nghymru, dyfarnwyd £208.2 miliwn o gyllid i brosiectau ym Mlaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Caerdydd, Conwy, Sir Ddinbych, Gwynedd, Ynys Môn, Castell-nedd Port Talbot, Abertawe a Thorfaen.

**11.** Mae Llywodraeth y DU wedi cadarnhau hefyd y bydd cylch arall o'r Gronfa, er nad yw amserlenni yn hysbys eto.

## Craffu Seneddol ar drefniadau cyllido newydd

**12.** Mae pwyllgorau yn Nhŷ’r Cyffredin, Senedd yr Alban a’r Senedd wedi clywed tystiolaeth am brofiadau cychwynnol sefydliadau sy’n gweithredu’r gronfa. Cynhaliodd Pwyllgor Cyllid y Senedd ymchwiliad[2] a chyflwynodd adroddiad ym mis Hydref 2022. Clywodd y Pwyllgor hwnnw dystiolaeth am yr anawsterau yr oedd awdurdodau lleol yn eu cael o ran amserlenni byr i wario eu dyraniadau cyllid ar gyfer 2022-23.[3]

**13.** Yn yr un modd, mae Pwyllgor Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau Tŷ'r Cyffredin[4] wedi clywed gan awdurdodau lleol yn Lloegr, er bod llai o fiwrocratiaeth na gyda Chronfeydd Strwythurol, fod pryderon bod cyllid yn cael ei ddarparu un flwyddyn ariannol ar y tro. Yn ogystal, mae’r Pwyllgor hwn wedi clywed bod arian yn cael ei wario ar yr hyn y gellir ei gyflawni yn hytrach na’r pethau cywir o reidrwydd pan fo’r amserlen yn fer. Cyflwynodd y Pwyllgor adroddiad ar gyllid ffyniant bro ym mis Mai 2023[5], gan nodi, er nad oedd wedi gallu dod i gasgliad ynghylch a oedd y cyllid a ddarparwyd drwy’r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn ddigon i gymryd lle’r Cronfeydd Strwythurol, fod yr holl dystiolaeth a gafodd yn dweud nad oedd yn

[1] https://www.gov.uk/government/publications/levelling-up-fund-round-2-updates-to-the-index-of-priority-places *(Saesneg yn unig)*
[2] https://busnes.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=38881
[3] https://cofnod.senedd.cymru/Committee/13176#A77090
[4] https://committees.parliament.uk/oralevidence/11952/pdf/ *(Saesneg yn unig)*
[5] Pwyllgor Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau Tŷ’r Cyffredin, Cyllid ar gyfer ffyniant bro *(Saesneg yn unig)*

ddigonol.[6] Galwodd hefyd am gyllid tymor hwy ar gyfer y Gronfa Ffyniant Gyffredin.

**14.** Ym mis Chwefror 2022, cymerodd Pwyllgor Cyllid a Gweinyddiaeth Gyhoeddus Senedd yr Alban dystiolaeth gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau ar ddisodli Cronfeydd Strwythurol yn yr Alban[7], a gofynnodd am gyflwyniadau ysgrifenedig yn dilyn hyn erbyn dechrau 2023. Mae wedi bod mewn trafodaethau gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau i glywed tystiolaeth lafar ganddo.[8]

**15.** Ar 6 Ionawr 2023, ysgrifennodd Gweinidog Cymru dros yr Economi[9] i'r Pwyllgor hwn yn amlinellu rhai pryderon ynghylch materion gweithredol sy'n ymwneud â'r Gronfa Ffyniant Gyffredin:

- Gan fod y cynlluniau buddsoddi rhanbarthol wedi'u cymeradwyo ym mis Rhagfyr 2022, mae hyn yn rhoi pedwar mis i wario dyraniadau 2022-23 o'r gronfa. O ganlyniad i hyn, eglurodd y Gweinidog y caiff prosiectau sy'n gallu gwario'n gyflym eu blaenoriaethu dros y rhai sy'n gwario'n strategol;

- Mae diffyg grant dros gyfnod o sawl blwyddyn yn "yn achosi cryn ansicrwydd i'r awdurdodau lleol ac i bartneriaid eraill yng Nghymru, ac mae'n peryglu swyddi a phrosiectau"; ac

- Yn ei farn ef, "nid yw prifysgolion, colegau, busnesau na'r trydydd sector yn cael gwneud ceisiadau uniongyrchol o dan gronfeydd y SPF a'r LUF, sy'n golygu bod llawer o'r sectorau hynny bellach yn sôn am ddiswyddiadau ac am gau cynlluniau hanfodol".

**16.** Mae'r Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig wedi cynnal dwy sesiwn dystiolaeth gyda phrifysgolion am gyllid ymchwil ym mis Mai a mis Mehefin 2023, gan ganolbwyntio'n benodol ar ddisodli'r arian o'r Cronfeydd Strwythurol.[10]

---

[6] Ibid.
[7] https://www.parliament.scot/chamber-and-committees/committees/current-and-previous-committees/session-6-finance-and-public-administration-committee/business-items/replacing-eu-structural-funds-in-scotland *(Saesneg yn unig)*
[8] https://www.parliament.scot/-/media/files/committees/finance-and-public-administration-committee/correspondence/2023/eufunds_sosluhctoconvener23june23.pdf *(Saesneg yn unig)*
[9] https://busnes.senedd.cymru/documents/s132762/Cronfa%20Codir%20Gwastad%20a%20Chronfa%20Ffyniant%20Gyffredin%20y%20DU.pdf *(Saesneg yn unig)*
[10] https://committees.parliament.uk/work/7405/university-research-funding/ *(Saesneg yn unig)*

## Cylch gorchwyl yr ymchwiliad

**17.** Ar ôl cwblhau ymchwiliad y Pwyllgor Cyllid, cytunodd y Pwyllgor hwn i geisio barn ar y canlynol:

- Pa mor effeithiol oedd Cronfeydd Strwythurol yr UE o ran trawsnewid economi Cymru;
- Sut y bydd y cyllid y bydd Cymru'n ei gael ar gyfer 2024-25 o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin a diwedd y cyllid sy'n weddill o dan Gronfeydd Strwythurol yr UE yn cyfateb i lefel y cyllid a ddaeth i Gymru drwy'r Cronfeydd Strwythurol tra'r oedd y DU yn aelod o'r UE ac unrhyw Gyllid Strwythurol a allai fod wedi bod ar gael drwy'r rhaglen nesaf;
- Pa elfennau o'r ddwy gronfa newydd sydd wedi gweithio'n dda hyd yn hyn, a pha rai sydd wedi bod yn llai effeithiol. Pa wersi y gellid eu dysgu at y dyfodol i sicrhau bod y cronfeydd yn cael yr effaith fwyaf bosibl;
- Pa fathau o ymyriadau sy'n cael eu darparu drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, ac i ba raddau y mae'r rhain yn wahanol i ymyriadau'r Cronfeydd Strwythurol;
- A yw'r cronfeydd yn llwyddo i nodi a chefnogi'r cymunedau a'r ardaloedd yng Nghymru sydd â'r angen mwyaf, a sut y mae'r cyllid yn cael ei rannu'n ddaearyddol o gymharu â'r Cronfeydd Strwythurol;
- I ba raddau y mae'r prosesau a'r amserlenni a bennwyd gan Lywodraeth y DU ar gyfer y cronfeydd yn helpu awdurdodau lleol a rhanbarthau i sicrhau eu canlyniadau arfaethedig;
- Pa mor effeithiol y mae'r gwahanol lefelau o lywodraethu yng Nghymru yn cydweithio mewn perthynas â'r cronfeydd hyn;
- Pa heriau a chyfleoedd y mae'r ffrydiau ariannu hyn yn eu darparu ar gyfer cyrff fel busnesau, colegau, prifysgolion a sefydliadau'r sector gwirfoddol a gafodd Gronfeydd Strwythurol; a
- Sut y mae'r rhaglen Lluosi yn datblygu ledled rhannau gwahanol o Gymru a beth yw'r rhwystrau a'r cyfleoedd posibl mewn perthynas â chyflwyno'r rhaglen hon.

## Casglu tystiolaeth ac ymgysylltu

**18.** Cynhaliwyd galwad agored am dystiolaeth rhwng 23 Mawrth 2023 a 21 Ebrill 2023 – daeth 27 o ymatebion i law. Ceir rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig yn Atodiad 2. Cynhaliodd y Pwyllgor hefyd arolwg ymgysylltu yn croesawu safbwyntiau gan sefydliadau sydd â phrofiad ymarferol o ffrydiau ariannu datblygu rhanbarthol ar ôl gadael yr UE. Cynhaliwyd yr arolwg tan 15 Mai 2023 a rhoddwyd sylw i'r crynodeb o'r canfyddiadau yn yr adroddiad hwn ac mae ar gael ochr yn ochr ag ef ar wefan y Pwyllgor.

**19.** Ceir rhestr o'r sesiynau tystiolaeth lafar yn Atodiad 1. Cynhaliwyd sesiynau panel gydag academyddion a melinau trafod, awdurdodau lleol, buddiolwyr cyllid a Llywodraeth Cymru. Gwahoddwyd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau i roi tystiolaeth lafar ym mis Mawrth, ond yn lle hynny atebodd y Gweinidog dros Ffyniant Bro, Dehenna Davison AS, y Pwyllgor ym mis Mai gan gynnig tystiolaeth ysgrifenedig, a ddaeth i law ar 13 Mehefin. Rhestrir pob gohebiaeth ynghylch yr ymholiad yn Atodiad 1.

# 2. Effaith Cronfeydd Strwythurol yr UE ar Gymru

**20.** Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) nad oedd Cronfeydd Strwythurol yr UE ac ni allent fod, ynddynt ac ohonynt eu hunain, yn drawsnewidiol i Economi Cymru.[11] Dadleuodd Prifysgol Metropolitan Caerdydd fod yr Almaen wedi gwario tua £71 biliwn y flwyddyn rhwng 1990-2014 i gau bylchau rhwng Dwyrain a Gorllewin yr Almaen, a bod hyd yn oed swm o arian o'r maint hwn dim ond wedi lleihau'r bwlch cynhyrchiant yn hytrach na'i gau'n gyfan gwbl. Felly, gan nad oedd Cronfeydd Strwythurol ar gael ar y raddfa hon, ni allent drawsnewid economi Cymru.[12]

**21.** Ar yr ochr gadarnhaol, dadleuodd CLlLC fod yr arian wedi cyflymu'r broses o weithredu ystod o brosiectau cyfalaf a refeniw i gefnogi datblygiad economaidd. Fodd bynnag, dywedodd hefyd fod y strwythur cyflenwi wedi llesteirio'r gallu lleol i gyflenwi i wahanol raddau.[13]

**22.** Cyfeiriodd CLlLC at yr enghraifft o awdurdod lleol yng Nghymru a dderbyniodd dros £200 miliwn o arian yr UE dros gylchoedd 2007-13 a 2014-20. Cafodd dros 2,000 o swyddi eu creu yn yr ardal hon o dan y Rhaglen Gydgyfeirio, a fydd wedi cyfrannu'n sylweddol at yr economi leol, ond bydd cynaliadwyedd y swyddi ychwanegol hynny nawr, fodd bynnag, yn fater allweddol yn yr ardal honno ac ar draws Cymru gyfan.

**23.** Amlinellodd nifer o sefydliadau enghreifftiau cadarnhaol o brosiectau o fewn eu sector neu eu hardal leol, a hefyd agweddau negyddol sy'n gysylltiedig â chyllid yr UE y teimlent eu bod yn rhwystro cynnydd.

**24.** Dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (Cyngor RhCT) fod yr ardal leol wedi elwa'n sylweddol o fuddsoddiad Cronfeydd Strwythurol yr UE.[14] Mae'n cyfeirio at adfywio canol trefi; adfer y Lido ym Mhontypridd; buddsoddi mewn gofod busnes mewn dau safle tir llwyd; a rhaglenni i gefnogi cyflogaeth a datblygu sgiliau fel enghreifftiau o brosiectau llwyddiannus.

**25.** Nododd Prifysgolion Cymru ddetholiad o brosiectau ymchwil ac arloesi a lwyddodd i gael mynediad at gymorth o gylch 2014-20 o Gronfeydd Strwythurol,

[11] Tystiolaeth ysgrifenedig – RDF 05 *(Saesneg yn unig)*
[12] Tystiolaeth ysgrifenedig – RDF 23 *(Saesneg yn unig)*
[13] Tystiolaeth ysgrifenedig – RDF 05 *(Saesneg yn unig)*
[14] Tystiolaeth ysgrifenedig – RDF 06 *(Saesneg yn unig)*

gan gynnwys canolfan o'r radd flaenaf er ymchwil yr ymennydd, campysau arloesi a'r ganolfan ar gyfer lled-ddargludyddion cyfansawdd.[15]

**26.** Nododd Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru y chwaraeodd cyllid yr UE rôl arbennig o bwysig o ran cefnogi cwmnïau a oedd wrthi'n tyfu ac a oedd yn edrych i hybu eu dyheadau ar gyfer twf. Fodd bynnag, nododd hefyd nad oedd ymgysylltiad â busnesau bach a chyfeirio at gymorth cyllid yr UE sydd ar gael ar gyfer mynediad at gyllid bob amser yn gweithio mor effeithiol ag y dylai.[16]

**27.** Nododd Colegau Cymru y gwnaeth Cronfeydd Strwythurol gyfraniad sylweddol at brentisiaethau yng Nghymru. Fodd bynnag, nodwyd hefyd fod lefel y fiwrocratiaeth sy'n gysylltiedig â chael gafael ar gyllid yn golygu bod heriau weithiau o ran cyfeirio cyllid i feysydd o'r economi sydd ei angen fwyaf.[17]

**28.** Dywedodd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) y cafodd Cronfeydd Strwythurol effaith sylweddol ar y sector gwirfoddol yng Nghymru ac wedi hynny ar unigolion a chymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol y mae'r sector yn eu cefnogi.[18]

**29.** Nododd y dystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwyd gan y Sefydliad Materion Cymreig ei bod yn destun dadl o ran a wnaeth y Gronfa Strwythurol drawsnewid economi Cymru.[19] Dywedodd mai darlun cymysg sydd wedi bod: tra bod cronfeydd wedi galluogi Llywodraeth Cymru i ymyrryd mewn rhannau o Gymru a oedd yn profi heriau economaidd, mae Cymru'n dal i berfformio yn waeth na rhannau eraill o'r DU ar nifer o ddangosyddion economaidd:

> *"Wales' widespread economic challenges remain. ESI [European Structural and Investment Funds] did not solve these, nor is it likely that its UK replacement funds will in the short to medium term. The solution requires both fundamental fiscal reform in the short to medium term and constitutional reform in the longer term."*[20]

**30.** Nododd Banc Datblygu Cymru fod Cronfeydd Strwythurol yn ffynhonnell cyfalaf pwysig i'r banc a'u bod yn rhoi cyfle i brofi'r cysyniad o fanc datblygu sy'n eiddo i'r llywodraeth. Bydd yr enillion o fenthyciadau i fusnesau a ddarperir drwy'r Cronfeydd Strwythurol yn caniatáu i'r banc ail-fuddsoddi mewn busnesau

[15] Tystiolaeth ysgrifenedig – RDF 13 *(Saesneg yn unig)*
[16] Tystiolaeth ysgrifenedig – RDF 07 *(Saesneg yn unig)*
[17] Tystiolaeth ysgrifenedig – RDF 11 *(Saesneg yn unig)*
[18] Tystiolaeth ysgrifenedig – RDF 16 *(Saesneg yn unig)*
[19] Tystiolaeth ysgrifenedig – RDF 25 *(Saesneg yn unig)*
[20] Tystiolaeth ysgrifenedig – RDF 25 *(Saesneg yn unig)*

Cymreig. Dywedwyd nad oedd maint y cyllid yn mynd i fod yn ddigon i drawsnewid yr economi, ond bod Cronfeydd Strwythurol wedi gwneud cynnydd mawr o ran creu amodau lle gall economi Cymru dyfu.[21]

## Barn y Pwyllgor

**31.** Nid ymchwiliad i lwyddiant neu fethiant rhaglenni cyllido blaenorol yr UE wrth fynd i'r afael â materion economaidd sydd wedi'u gwreiddio'n ddwfn oedd hwn. Fodd bynnag, nododd y rhai a ymatebodd i gwestiynau am effaith Cronfeydd Strwythurol yr UE rai manteision clir a oedd wedi deillio ohonynt. Wrth ddatblygu cyllid newydd, mae'n hanfodol gwrando ar farn a phrofiad buddiolwyr y Cronfeydd Strwythurol yng Nghymru, a hynny er mwyn gwrando ar y gwersi a ddysgwyd o gylchoedd ariannu blaenorol a thrwy hynny osgoi ailadrodd unrhyw gamgymeriadau yn y gorffennol.

[21]Tystiolaeth ysgrifenedig – RDF 14 *(Saesneg yn unig)*

# 3. Swm y cyllid a gafodd Cymru

**32.** Un o'r prif destunau anghytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yw cwantwm y cyllid a ddyfarnwyd i Gymru yn y Gronfa Ffyniant Gyffredin. Gwnaeth Llywodraeth y DU ymrwymiad[22] i dalu swm sy'n cyfateb i'r cyllid yr oedd Cymru wedi'i dderbyn yn flaenorol drwy Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a Chronfa Gymdeithasol Ewrop (ERDF ac ESF) o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin.

**33.** Mae hwn yn faes y mae Pwyllgor Cyllid y Senedd eisoes wedi ymchwilio iddo yn ei ymchwiliad yn 2022 i drefniadau cyllido ar ôl gadael yr UE.[23] Yn eu hymateb i adroddiad y Pwyllgor Cyllid, dywedodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau eu bod yn ailddatgan eu barn eu bod yn bwriadu cyflawni eu hymrwymiad i dalu swm sy'n cyfateb i'r cyllid a gafodd Cymru drwy Cronfa Gymdeithasol Ewrop a Chronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop.[24]

**34.** Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn haeru nad yw hyn yn wir. Yn ei bapur i'r Pwyllgor, dywedodd Gweinidog yr Economi fod y dull o ddyrannu'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn golygu y bydd Cymru £772 miliwn yn waeth ei byd rhwng mis Ionawr 2021 a mis Mawrth 2025 nag y byddai wedi bod pe bai Cymru wedi parhau i dderbyn Cronfeydd Strwythurol.[25] Eglurodd y Gweinidog sut y gwnaeth Llywodraeth Cymru bennu'r ffigurau hyn, gan ddweud y bydd y flwyddyn olaf honno, ar ddiwedd y setliad cyllideb aml-flwyddyn, yn cyfateb yn fras i'r arian a oedd ar gael yng nghronfeydd strwythurol yr UE gynt. Yr anhawster yw bod yr arian wedi cronni hyd at y cyfnod hwnnw o amser, ac mae hynny'n golygu bod llai o arian wedi bod ym mhob un o'r blynyddoedd i ddod. Esboniodd ymhellach nad oes modd defnyddio arian cronfeydd strwythurol newydd gan yr Undeb Ewropeaidd yn erbyn symiau blaenorol a bod modd cael mynediad at y cronfeydd hynny o ddechrau'r cyfnod. Awgrymodd y Gweinidog pe bai Llywodraeth y DU yn mynd i sicrhau nad yw Llywodraeth Cymru ar ei cholled, yna, mewn gwirionedd, byddai'n rhaid iddi ychwanegu rhagor o arian er mwyn sicrhau

[22] https://www.gov.uk/government/publications/uk-shared-prosperity-fund-allocations-methodology/uk-shared-prosperity-fund-allocations-methodology-note *(Saesneg yn unig)*
[23] https://senedd.cymru/media/rgvllou1/cr-ld15380-w.pdf
[24] https://business.senedd.wales/documents/s131593/Letter%20from%20the%20Secretary%20of%20State%20for%20Wales%20and%20Secretary%20of%20State%20for%20Levelling%20Up%20Housing%20%20.pdf *(Saesneg yn unig)*
[25] https://busnes.senedd.cymru/documents/s136999/Papur%20tystiolaeth%20%20Llywodraeth%20Cymru.pdf

ei bod yn fyw na'r swm cyfatebol ymhen blynyddoedd, ond dywedodd nad oes cynllun i wneud hynny yn ôl pob tebyg.[26]

**35.** Dywedodd yr Athro Steve Fothergill wrth Aelodau fod y ddwy lywodraeth yn iawn, gan eu bod yn sôn am wahanol bethau.[27] Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, esboniodd yr Athro Fothergill:

> *"The UK Government's figures refer to spending in each financial year, and it is correct that by 2024-25, when the still substantial legacy EU spending finally drops out of the picture, UKSPF funding of £1.5bn for the UK as a whole will broad match in real terms the annual average EU funding (ERDF and ESF) over the last spending round."*[28]

**36.** Fodd bynnag, eglurodd fod safbwynt Llywodraeth Cymru hefyd yn gywir:

> *"The UK Government has put £2.6 billion on the table for the UK as a whole for three financial years—as I say, ramping up to the £1.5 billion in the final financial year. If we had stayed as an EU member, then we probably, in the UK as a whole, would have had an allocation of around about £10.5 billion, over a seven-year period. So, we'd be in a position now to begin to commit money that would be getting spent, not just in the next financial year, but right the way through to 2027."*[29]

**37.** Crynhodd hyn drwy ddweud:

> *"It's a very odd situation to be in, to say that both parties are right in all of this, but they are, because they're looking at rather different things. One's looking at actual spending in financial years, and, in that sense, the UK Government is correct; the Welsh Government is looking at financial commitments, which is a different measure, and Vaughan Gething is correct on that front."*[30]

**38.** Daeth ystod o dystiolaeth i law'r Aelodau yn cefnogi safbwynt y ddwy lywodraeth ar gwantwm y cyllid. Dywedodd y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, pe bai'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn gweithio fel cynlluniau'r UE a bod sawl blwyddyn

---

[26] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 8 Mehefin 2023, Paragraff 11
[27] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 4 Mai 2023, Paragraff 10
[28] Tystiolaeth ysgrifenedig – RDF 03 *(Saesneg yn unig)*
[29] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 4 Mai 2023, Paragraff 12
[30] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 4 Mai 2023, Paragraff 13

rhwng dyrannu'r cyllid a'r adeg y caiff ei wario, yna ei fod yn cytuno â'r llywodraethau datganoledig. Ond y bwriad o ran Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yw bod y symiau a restrir ar gyfer pob blwyddyn yn cael eu gwario yn ystod y flwyddyn dan sylw. Yn hyn o beth, creda fod sefyllfa Llywodraeth y DU yn fwy rhesymol.[31]

**39.** Fodd bynnag, dywedodd y Sefydliad Materion Cymreig fod y ffigurau yn awgrymu bod Cymru ar fin colli allan ar dros £1 biliwn o gyllid o ganlyniad i symud o gyllid yr UE i'r Gronfa Ffyniant Gyffredin.[32] Yn ei dystiolaeth lafar, amlygodd y Sefydliad Materion Cymreig fod yr anghytundeb hwn yn pwysleisio diffygion o ran cyflwyno cyllid newydd. Dywedodd wrth yr Aelodau fod y ffaith fod y mater yn destun dadl, nid yn unig gan Lywodraeth Cymru ond hefyd gan Lywodraethau datganoledig eraill, yn amlygu un o'r problemau sylfaenol gyda'r ffordd y cafodd y Gronfa Ffyniant Gyffredin a'r Gronfa Ffyniant Bro eu cyflwyno hyd yma. Dywedodd fod yna ddiffyg cydweithio a diffyg lefel glir, gytûn o gyllid a gall y ddwy lywodraeth gytuno ar hyn.[33]

**40.** Roedd y rhan fwyaf o'r sefydliadau yng Nghymru y clywodd y Pwyllgor ganddynt yn cytuno â safbwynt Llywodraeth Cymru nad oedd Cymru wedi cael yr un lefel o gyllid o dan y Gronfa Ffyniant Gyffredin ag y byddai wedi'i chael o dan gyllid yr UE. Fodd bynnag, roedd y safbwynt hwn yn tueddu i fod yn seiliedig ar ddatganiad ysgrifenedig Llywodraeth Cymru ynghylch cwantwm y cyllid.

**41.** Dywedodd Sefydliad Bevan mai'r unig wybodaeth sydd ar gael iddo yw'r wybodaeth a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, sy'n gwrth-ddweud ei gilydd.[34] Aeth ymlaen i godi pryderon am effaith yr anghytundeb hwn:

> *"We are concerned that inter-governmental disputes are detracting from the bigger question of whether the current policy responses to and investment in West Wales and the Valleys are adequate to the scale of need. We have long held that both governments have not sufficiently addressed the circumstances of these places and see no change in approach."*[35]

[31] Tystiolaeth ysgrifenedig – RDF 21 *(Saesneg yn unig)*
[32] Tystiolaeth ysgrifenedig – RDF 25 *(Saesneg yn unig)*
[33] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 4 Mai 2023, Paragraff 17
[34] Tystiolaeth ysgrifenedig – RDF 25 *(Saesneg yn unig)*
[35] Tystiolaeth ysgrifenedig – RDF 25 *(Saesneg yn unig)*

## Barn y Pwyllgor

**42.** Clywodd y Pwyllgor amrywiaeth o safbwyntiau ynghylch a oedd swm y cyllid datblygu rhanbarthol ar ôl gadael yr UE yn cyfateb i'r hyn y byddai Cymru wedi'i gael gan gronfeydd strwythurol yr UE. Roedd gan y Pwyllgor ddiddordeb yn nadansoddiad yr Athro Fothergill a oedd yn nodi bod rhinwedd yn safbwynt y ddwy ochr. Fodd bynnag, ni allai Aelodau gytuno o ran pa ochr oedd â'r ddadl gryfach.

**43.** Cytunodd y Pwyllgor â'r Sefydliad Materion Cymreig fod yr anghytundeb ynghylch cwantwm y cyllid wedi amlygu problem gyda'r modd y cafodd y Gronfa Ffyniant Gyffredin ei chyflwyno. Er bod cwantwm y cyllid yn agwedd bwysig iawn ar y rhaglen, mae hefyd yn bwysig ystyried effeithiolrwydd y Gronfa Ffyniant Gyffredin, a dylid dysgu unrhyw wersi ar weithrediad y cylch cyntaf hwn o gyllid. Mae'r Aelodau'n pryderu y gallai'r anghytundeb hwn fwrw cysgod dros y trafodaethau pwysig hynny.

**Argymhelliad 1.** Cyn cyhoeddi unrhyw gylch ariannu datblygu rhanbarthol ar ôl gadael yr UE yn y dyfodol, dylai Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru geisio cytuno ar safbwynt cyffredin o ran amseriad ei gyflwyno a chwantwm y cyllid .

# 4. Targedu cyllid

**44.** Mae'r fformiwla ar gyfer dyrannu'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn sylweddol wahanol i'r fformiwla flaenorol ar gyfer dyrannu cyllid datblygu economaidd yr UE. Yng Nghymru, dyrannwyd arian fesul awdurdod lleol gyda 40 y cant yn cael ei ddyrannu yn ôl poblogaeth, 30 y cant yn ôl y Mynegai blaenoriaethu lleoedd Cronfa Adnewyddu Cymunedol (CRF) a 30 y cant yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru.[36]

**45.** Cododd CLlLC bryderon ynghylch y cydadwaith rhwng y pwysoliadau hyn, a dywedodd nad oedd y fformiwla yn ystyried gwahaniaethau yn y boblogaeth. Esboniodd fod dwy ardal gyda'r un lefel o amddifadedd yn cael yr un faint o'r elfen hon o'r fformiwla waeth beth fo maint eu poblogaeth.[37]

**46.** Dywedodd y Sefydliad Astudiaethau Cyllid fod pwysoliad y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn golygu'r canlynol:

> *"two areas with the same levels of deprivation receive the same total funding from this element of the funding formula, irrespective of how big their populations are. This contrasts with the approach taken for the share allocated using the broader index of economic need, where two areas the same levels of assessed need receive the same funding per person.*
>
> *"This matters because the population of different council areas in Wales varies substantially: the population of Cardiff was estimated to be over 6 times as large of that of Merthyr Tydfil as of mid-2020 (the population figures used elsewhere in the UKSPF allocation formulas). Rhondda Cynon Taff gets just 21% as much funding per person (£44) between 2022-23 and 2024-25 from the deprivation element of the formula as Merthyr Tydfil (£208) despite being only a little bit less deprived, because its population is 4 four times larger."*[38]

**47.** Cyfleoedd yr Athro Steve Fothergill hyn, drwy ddweud bod y cyfrifiadau y mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid wedi'u gwneud yn dangos bod hyn wedi arwain at newid cyllid net i'r awdurdodau bach difreintiedig. Blaenau a Merthyr yw'r enillwyr mawr yn ei farn ef a'r collwyr yw Castell-nedd a Phort Talbot a

[36]https://www.gov.uk/government/publications/uk-shared-prosperity-fund-allocations-methodology/uk-shared-prosperity-fund-allocations-methodology-note *(Saesneg yn unig)*
[37]Tystiolaeth ysgrifenedig – RDF 05 *(Saesneg yn unig)*
[38]Tystiolaeth ysgrifenedig – RDF 21 *(Saesneg yn unig)*

Rhondda Cynon Taf. Mae Caerdydd hefyd wedi colli allan yn ei farn ef. Esboniodd fod ychydig o filiynau wedi'i wario yn y lle anghywir o bosib ac na fyddai hyn wedi digwydd gyda fformiwla well. Dywedodd wrth yr Aelodau y byddai wedi bod yn llawer gwell edrych ar nifer y boblogaeth yn y mannau mwyaf difreintiedig, er enghraifft 20 y cant o'r wardiau yng Nghymru ym mhob awdurdod lleol, yn hytrach na rhestru awdurdodau lleol o'r gorau i'r gwaethaf, ac y byddai hynny wedi osgoi unrhyw ragfarn tuag at yr awdurdodau lleiaf. [39]

**48.** Clywodd yr Aelodau hefyd fod y fformiwla newydd wedi symud ffocws y cyllid oddi ar ranbarth Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, a oedd yn flaenoriaeth fawr yn flaenorol o dan yr UE, i Ddwyrain Cymru. Dywedodd dadansoddiad y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, er bod Gorllewin Cymru a'r Cymoedd wedi cael 83 y cant o gyllid yr UE (a bron deirgwaith cymaint y person o gymharu â Dwyrain Cymru o dan gyllid yr UE), bydd yn cael 73 y cant (ac 1.6 gwaith cymaint y person) o dan Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU.[40]

**49.** Clywodd yr Aelodau amrywiaeth o dystiolaeth o ran yr elfen ailflaenoriaethu. Er enghraifft, dywedodd Cyngor Sir Penfro ei fod yn siomedig mai un o effeithiau Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yw symud adnoddau o Orllewin Cymru a'r Cymoedd, sydd yn gymharol fwy difreintiedig, i Ddwyrain Cymru.[41] Dywedodd Mark Norris o Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf fod y newid a wnaed i'r fformiwla yn golygu bod ardaloedd nad oedd ganddynt arian o'r blaen bellach yn cael cyllid, felly yn amlwg mae'n dod o'r ardaloedd hynny a dargedwyd yn flaenorol fel mannau sydd ag angen. Esboniodd ei fod yn ymwybodol nad oedd y mynegeion amddifadedd lluosog yn mynd i gael eu cynnwys yn y fformiwla o gwbl i ddechrau, ond iddynt gael eu cynnwys yn hwyr yn y broses, ond nid yn yr un ffordd ag y'u defnyddiwyd yn y gorffennol. Er enghraifft, yn Rhondda Cynon Taf, ceir 17 o'r 100 ardal o amddifadedd lluosog—ardaloedd cynnyrch ehangach haen is—a bydd y dyraniad yn is nag o'r blaen i Rhondda Cynon Taf.[42]

**50.** Ymhelaethodd y Cynghorydd Rob Stewart o Gyngor Abertawe ar hyn, gan ddweud wrth yr Aelodau bod anghysondeb gwirioneddol o ran yr hyn a addawyd a'r hyn a gyhoeddwyd a'r hyn sy'n digwydd mewn gwirionedd o ran y dyraniad. Aeth ymlaen i egluro y bydd gan Gyngor Abertawe ddyraniad llai o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, sef £4.1 miliwn yn llai nag y byddai wedi'i gael o dan hen

[39] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 4 Mai 2023, Paragraff 32
[40] Tystiolaeth ysgrifenedig – RDF 21 *(Saesneg yn unig)*
[41] Tystiolaeth ysgrifenedig – RDF 09
[42] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 4 Mai 2023, Paragraff 155

fformiwla'r UE, a hynny oherwydd bod yr elfen angen wedi'i lleihau. Esboniodd fod hynny'n ddewis.[43]

**51.** Fodd bynnag, roedd Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru yn ystyried bod hyn yn gam cadarnhaol gan mai un o'r pethau mwyaf cadarnhaol am y cyllid sydd ar gael ar ôl gadael yr UE yw ei fod ar gael i fwy o awdurdodau lleol na Chronfeydd Strwythurol yr UE sy'n golygu bod awdurdodau a oedd wedi'u heithrio o'r blaen gan feini prawf Amcan Un neu Arian Cydgyfeirio bellach yn cael mynediad at gyllid posibl. Mae hyn yn rhoi cyfle i ailgyfalafu cefn gwlad Cymru a oedd wedi'i eithrio o gyllid cyn hyn ac i adfywio trefi a oedd wedi'u heithrio o'r blaen.[44]

**52.** Dywedodd Gweinidog yr Economi wrth y Pwyllgor y byddai Llywodraeth Cymru wedi hoffi cael system ddyrannu sy'n seiliedig ar Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Esboniodd y Gweinidog mai'r rheswm dros gynnig defnyddio mynegai amddifadedd lluosog Cymru yw ei fod yn ddealladwy, yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd gyda data sy'n cyfateb a'i fod yn gwneud synnwyr i Gymru, gan ei fod yn cynnwys y wlad gyfan. Mae'n cynnwys ystod eang o ffactorau, rhai economaidd-gymdeithasol, ac mae hefyd yn cynnwys mynediad at wasanaethau. Felly, ceir ffactor sy'n ymdrin â pha mor hawdd ydyw i chi o ran ble rydych chi'n byw i gael mynediad at y gwasanaethau hynny.[45]

**53.** O ran y system a ddewiswyd gan Lywodraeth y DU, dywedodd y Gweinidog fod Llywodraeth y DU yn sicr iawn ei bod am gael ffactor a oedd yn ymwneud â phoblogaeth yn unig. Felly, y boblogaeth ac nid yr angen oedd yr ystyriaeth, a dyna oedd yn gyfrifol am symud yr arian. Golyga hynny nad oedd yr angen eisoes yn ystyriaeth o ran rhywfaint o'r fformiwla o leiaf. Wrth ddweud y bydd yr elfen o'r fformiwla sy'n ymwneud ag angen yn lleihau ymhellach, yr hyn sy'n digwydd mewn gwirionedd yw cymryd arian oddi wrth y cymunedau lle mae'r angen mwyaf. Esboniodd nad oedd yn deall sut y gellir cyfiawnhau hynny.[46]

**54.** Mewn llythyr at y Pwyllgor, dywedodd y Gweinidog Ffyniant Bro fod y fethodoleg ariannu ar gyfer Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU wedi'i haddasu'n benodol i anghenion Cymru yn seiliedig ar sgyrsiau a gafwyd gyda Llywodraeth Cymru yn ystod cyfnod datblygu'r gronfa. Mae'r fethodoleg yn defnyddio data sy'n benodol i Gymru gan gynnwys Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Esboniodd ei fod yn fodlon bod y dyraniadau canlyniadol ar gyfer Cronfa Ffyniant Gyffredin y

---

[43] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 4 Mai 2023, Paragraff 159
[44] Tystiolaeth ysgrifenedig – RDF 07 *(Saesneg yn unig)*
[45] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 8 Mehefin 2023, Paragraff 32
[46] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 8 Mehefin 2023, Paragraff 37

DU yn deg ac yn taro cydbwysedd priodol rhwng angen a phoblogaeth i gefnogi ardaloedd yn gymesur ar draws Cymru gyfan.[47]

## Barn y Pwyllgor

**55.** Mae'r Aelodau'n cefnogi'n gryf yr angen i flaenoriaethu cyllid ychwanegol, fel y Gronfa Ffyniant Gyffredin, i'r ardaloedd sydd â'r angen mwyaf. Fodd bynnag, mae Aelodau'n rhannu pryderon rhanddeiliaid nad yw'r fformiwla ariannu bresennol yn blaenoriaethu cystal ag y gallai. Mae'r Pwyllgor yn arbennig o bryderus ynghylch y ffordd y mae lefelau'r boblogaeth yn cael eu hadlewyrchu yn y fformiwla ariannu. Rhaid i'r cylch nesaf o gyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin ystyried maint poblogaeth ardaloedd difreintiedig.

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth y DU sicrhau bod y cylch nesaf o gyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn ystyried maint poblogaeth ardaloedd difreintiedig.

[47] Llythyr oddi wrth Dehenna Davison AS, yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Ffyniant Bro *(Saesneg yn unig)*

# 5. Cynllun a gweithrediad y cronfeydd

**56.** Dewisodd Llywodraeth y DU weithio'n uniongyrchol gydag awdurdodau lleol i ddarparu'r Gronfa Ffyniant Gyffredin ledled Prydain Fawr, gan ddefnyddio'r pwerau a gafodd drwy Ddeddf Marchnad Fewnol y DU 2020, gyda dull gwahanol yn cael ei fabwysiadu yng Ngogledd Iwerddon. Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn cydweithio i ddarparu'r gronfa ar draws pedwar rhanbarth - Gogledd Cymru, Canolbarth Cymru, De-orllewin Cymru a De-ddwyrain Cymru. Dyma'r un rhanbarthau sydd ar waith ar gyfer y pedair Bargen Dinesig a Thwf yng Nghymru.[48]

**57.** Mae pedwar awdurdod lleol yn arwain ar y Gronfa Ffyniant Gyffredin o fewn eu rhanbarth - Ceredigion, Gwynedd, Rhondda Cynon Taf ac Abertawe. Y sefyllfa ddiweddaraf ym mhob rhanbarth yw:

- Gogledd Cymru - mae dros 130 o brosiectau wedi pasio cam cyntaf y broses ymgeisio, ac wedi cael gwahoddiad i gyflwyno cais manwl ar gyfer cam 2. Y sefyllfa bresennol yw y bydd y rhan fwyaf o'r penderfyniadau terfynol a'r dyfarniadau cyllid wedi'u cwblhau erbyn diwedd mis Gorffennaf 2023, er y bydd yr amserlenni'n amrywio ar gyfer pob awdurdod lleol.[49]

- Canolbarth Cymru - bu dwy alwad agored i sefydliadau gyflwyno ceisiadau am gyllid. Roedd y cyntaf yn ymwneud â chymunedau a lle, ac astudiaethau dichonoldeb ar gyfer cefnogi busnesau lleol,[50] ac roedd yr ail yn ymwneud â chefnogi busnesau lleol a'r rhaglen Lluosi. [51]

- De-orllewin Cymru – mae chwe phrosiect angori ar draws y rhanbarth sy'n cwmpasu cyflogadwyedd; cefnogi cymunedau; gwledig; trawsnewid y sir; diwylliant a thwristiaeth; a chefnogi busnesau.[52] Mae nifer o alwadau am gyllid o fewn y chwe thema hyn ar agor am geisiadau, gydag eraill i ddilyn. Mae yna hefyd alwad agored am brosiectau sy'n mynd i'r afael ag agweddau ar y Cynllun Buddsoddi Rhanbarthol nad ydynt yn cael eu trin drwy'r prosiectau angori, yn ogystal â galwad agored ar gyfer sgiliau a galwad agored ar gyfer y rhaglen Lluosi.[53]

[48] Yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau, Y Gronfa Ffyniant Gyffredin – Canllawiau: Daearyddiaeth y gwaith darparu *(Saesneg yn unig)*
[49] Uchelgais Gogledd Cymru, Cronfa Ffyniant Gyffredin: Gogledd Cymru
[50] Cyngor Sir Powys, Galwad Agored Cyntaf
[51] Cyngor Sir Powys, Yr Ail Alwad Agored
[52] Cyngor Abertawe, Cronfa Ffyniant Gyffredin – prosiectau angori
[53] Cyngor Abertawe, Cronfa Ffyniant Gyffredin – gwybodaeth galwad agored

- De-ddwyrain Cymru – bu nifer o alwadau agored am gyllid gan bob un o'r 10 awdurdod lleol yn y rhanbarth. Mae prosiectau wedi dechrau cael cyllid mewn rhai ardaloedd, er enghraifft Rhondda Cynon Taf[54] a Chaerffili.[55]

## Y dull lleol o ran y gronfa

**58.** Yn flaenorol, eglurodd Llywodraeth y DU ei bod wedi penderfynu gweithio'n uniongyrchol gydag awdurdodau lleol gan ei bod yn credu mai'r prosiectau mwyaf llwyddiannus yw'r rhai sy'n cael eu cyflawni o ganlyniad i gymunedau lleol yn nodi prosiectau sy'n bwysig iddyn nhw ac yn dod o hyd i atebion.[56] Mewn llythyr at y Pwyllgor, dywedodd y Gweinidog Ffyniant Bro fod y dirwedd gyllido newydd yn dra gwahanol ac yn darparu buddion gwell i arweinwyr lleol benderfynu ar y cyfuniad gorau o ymyriadau i fynd i'r afael ag anghenion lleol a rhanbarthol.[57]

**59.** Er bod awdurdodau lleol yn cydweithio ar sail ranbarthol i ddarparu'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yng Nghymru, yn ymarferol mae awdurdodau lleol unigol yn gwneud eu penderfyniadau eu hunain o fewn fframwaith y cynlluniau buddsoddi rhanbarthol. Er bod hyn yn llai o her i ganolbarth Cymru, lle mae dau awdurdod lleol yn cydweithio, mae'n cyflwyno anawsterau mewn rhanbarthau mwy. Dywedodd y Cynghorydd Dyfrig Siencyn, Arweinydd Cyngor Gwynedd, y canlynol wrthym:

> *"Un peth y buaswn i yn licio tynnu sylw ato fo, wrth gwrs, ydy, mae pob un awdurdod lleol yn gwneud ei benderfyniadau unigol ei hun sydd yn ei gwneud hi'n anodd. Mae'n bosib, mewn rhai amgylchiadau, i gael cytundeb i weithredu cynlluniau rhanbarthol, felly, mae hwnna'n wendid yn y drefn, ond mae'n debyg y gellid goresgyn hynny."*[58]

**60.** Tynnodd y Cynghorydd Mark Norris, yr Aelod o'r Cabinet ar Faterion Datblygu a Ffyniant yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, sylw at y ffaith ei fod wedi cymryd llawer o amser yn ei ranbarth ef, sy'n cynnwys 10 awdurdod lleol, i gael cytundeb ar y cynllun rhanbarthol a gweithio ar sail ranbarthol.[59]

---

[54] Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, 73 o brosiectau wedi'u cymeradwyo ar gyfer cyfran o Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU a rhagor o Grantiau Cymunedol wedi'u cyhoeddi
[55] Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, busnes lleol llwyddiannus wedi'i gynorthwyo gan Gronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Unedig
[56] Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig Tŷ'r Cyffredin, 27 Mai 2021, C50 (*Saesneg yn unig*)
[57] Llythyr oddi wrth Dehenna Davison AS, y Gweinidog Ffyniant Bro *(Saesneg yn unig)*
[58] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 4 Mai 2023, Paragraff 185
[59] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 4 Mai 2023, Paragraff 193

**61.** Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, nododd CLlLC:

> *"Regional planning for local delivery is considered a potential benefit of SPF. It enables cross-border approaches to service delivery, shared learning and resources where appropriate. It has been a source of frustration, though, that this approach was not adopted in other parts of the UK which means some of the challenges faced in regional working are unique to Wales. Lead authorities in each of the four regions of Wales have been faced with additional burdens of managing funding at a regional level and establishing financial and delivery agreements with the constituent councils. In England where in most cases the money goes directly to the individual authority (except for example in Combined Authority areas) they have not had this added complication.*
>
> *"For Wales, too, the publication by UK Government of an allocation for each council area within the regional total has, however, made regional working more problematic as each area understandably wants to ensure it fully uses 'its share' locally."*[60]

**62.** Roedd awdurdodau lleol yn falch o'u rôl gynyddol mewn perthynas â chyflawni datblygiad economaidd yn eu hardal leol. Dywedodd CLlLC fod cydnabyddiaeth o rôl ganolog llywodraeth leol wrth hwyluso a chefnogi datblygiad ac adfywiad cymunedol wedi'i groesawu. Dywedodd y Cynghorydd Rob Stewart wrth y Pwyllgor:

> *"…we really do welcome the ability to have a bottom-up approach in terms of local control with regional collaboration—definitely an improvement—and it does allow us to focus on those priorities that we, as the local authorities, and working with our third sector partners and others, have more intelligence about in terms of the local knowledge of what our communities need."*[61]

**63.** Fodd bynnag, clywodd y Pwyllgor gan ystod eang o gynrychiolwyr, gan gynnwys y rhai o awdurdodau lleol, fod dull lleol yn unig o ymdrin â chronfeydd a ddyrannwyd wedi achosi nifer o anawsterau. Mae Pennod 6 o'n hadroddiad yn

[60] Tystiolaeth ysgrifenedig – RDF05 *(Saesneg yn unig)*
[61] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 4 Mai 2023, Paragraff 203

archwilio’n fanylach yr heriau sy’n wynebu’r sector addysg uwch o ganlyniad i faterion yn ymwneud ag ymchwil ac arloesi.

**64.** Mae sefydliadau sydd am gyflwyno prosiectau rhanbarthol neu brosiectau Cymru gyfan yn cael trafferth i gael mynediad at y Gronfa Ffyniant Gyffredin oherwydd y meini prawf sydd ar waith. Dywedodd Prifysgolion Cymru y gallai hyn effeithio ar effeithiolrwydd y gronfa:

> *I think we have missed a really big opportunity to think about not just local delivery, but local impact. Sometimes you'll get better impact across a wider range of areas through a more joined-up approach, and that could give us better economy of scale, so better value for money. We've got some projects in higher education where that could be the case. And, if we're delivering to beneficiaries, if we're delivering to SMEs, then if you've got that kind of strategic approach, some bits can be funded through SPF, but you've got a project that can also be delivered in other areas and services that can be provided in other areas, potentially through other routes of funding.*[62]

**65.** Dywedodd Chwarae Teg fod dull seiliedig ar le yn unig o ddatblygu rhanbarthol yn peryglu cymunedau pobl sy'n rhannu rhwystrau cyffredin i gyfranogi'n llawn yn y farchnad lafur a'r gymdeithas, waeth beth yw eu lleoliad, gan golli allan ar ymyriadau dim ond o ganlyniad i ble maen nhw’n byw.[63]

**66.** Dywedodd yr Athro Steve Fothergill nad yw'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn darparu mecanweithiau i'r sefydliadau traws-ffiniol hynny ymgysylltu'n dda iawn. Mae hefyd yn cefnu ar yr hyn sy'n cael ei wneud yn dda iawn yn lleol, ac nid yw’n integreiddio hyn â’r pethau y mae Llywodraeth Cymru eisoes yn ei wneud.[64] Gwnaed y pwynt hwn hefyd gan FSB Cymru:

> *“We're really concerned about a lack of overarching structure. Having delivery at that local authority level creates a situation where there's not much cohesion. Previously, at the Welsh Government level, regional and national projects were being supported, whereas this ability to achieve wider aims seems to be lost a bit with this kind of delivery. We really feel like there's an opportunity here to learn from previous EU funding. We just don't want to see money being spent in isolation, without a*

[62] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 17 Mai 2023, Paragraff 26
[63] Tystiolaeth ysgrifenedig – RDF15 *(Saesneg yn unig)*
[64] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 4 Mai 2023, Paragraff 115

*holistic view of the outcomes of what we're trying to achieve and how that aligns with wider economic development and Government policy."*[65]

**67.** Tynnodd y Cynghorydd Rob Stewart sylw at yr effaith y mae hyn yn ei chael ar sefydliadau fel colegau addysg bellach a phrifysgolion:

> *"So, it's a different challenge for our university and for our third sector educational funders to tap into that programme. They therefore fall between two stools in that respect. We now have new arrangements. Where they used to bid into a fund, they're now not able to do so in the same way…*
>
> *"The UK Government have not done a like-for-like replacement in terms of the EU funds that were there previously, and that means that there are difficulties for universities and further education establishments within the new arrangements. We're trying to work through as productively and co-operatively as we can in terms of the local arrangements, but we don't set the criteria—that's the issue here."*[66]

**68.** Dywedodd Colegau Cymru:

> *"…there's a greater need for regional and national working across Wales. That seems to be the main ingredient that we've lost, almost, through how these funds have been administered. But, still, the opportunity does sit upon us. Things could still change, but, unfortunately, time is passing now and a lot of projects have happened through, obviously, the local authority level, rather than, perhaps, the commissioning arrangement that was in place previously."*[67]

**69.** Pe bai cyllid ar gael i'w ddarparu ar lefel ranbarthol yn unig, esboniodd Cwmpas:

> *"…it would have been possible to design much more strategic interventions that could have addressed common issues across each of the regions. Where we have heard a regional approach is being taken with some local authorities (primarily in South East Wales to date) the themes are limited to specific sectors*

[65] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 17 Mai 2023, Paragraff 35
[66] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 4 Mai 2023, Paragraff 240
[67] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 17 Mai 2023, Paragraff 33

*and miss the opportunity of delivering strategic interventions in areas such as social businesses, SMEs or the foundational economy."*[68]

**70.** Awgrymodd CGGC fod angen mwy o ystyriaeth o'r hyn sy'n gweithio orau ar lefel Cymru gyfan, yn rhanbarthol, neu'n lleol:

*"Local authorities have a central, important role to play in the levelling-up agenda and with SPF, and some of the delivery, absolutely, should be done in a model similar to what's being delivered at the moment. But there should have been much more of a broader conversation with Welsh Government and other stakeholders to identify the best level for activity—whether it's national, regional or local—to occur...*

*"it's about all of those people coming round the table and saying, 'These are the range of interventions that we want to make to deliver the outcome that we want, which is a more prosperous and equal Wales. These are the interventions we need to achieve that. Who are the right people to have round the table then to deliver those interventions, whether that's the voluntary sector, higher education, FE, private sector, public sector? Let's work out who is best to deliver."*[69]

**71.** Gwnaeth Onward bwynt tebyg ynghylch yr angen i ddarparu ar wahanol lefelau, ac amlygodd y dylid darparu gwahanol agweddau ar ddatblygu rhanbarthol ar wahanol lefelau:

*"I think the really important thing with the shared prosperity fund, and the range of different areas that it looks at, is that elements of it will be more appropriate for different scales. So, interventions on skills are probably going to be at the area of a functional economic geography, which might be above a particular local authority. If it's on a more community regeneration or revitalisation element, that might be hyperlocal, even below the level of the local authority. But there are a range of organisations that need to play a role at the neighbourhood, town, local authority, Wales level, and therefore all of those organisations should play a role."*[70]

---

[68] Tystiolaeth ysgrifenedig – RDF22 *(Saesneg yn unig)*
[69] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 17 Mai 2023, Paragraff 120
[70] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 4 Mai 2023, Paragraffau 122 a 130

**72.** Roedd tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru i'r ymchwiliad yn dadlau nad oedd y dull a fabwysiadwyd ar gyfer y Gronfa Ffyniant Gyffredin wedi dysgu gwersi o raglenni cynnar y Cronfeydd Strwythurol yng Nghymru, gan nodi:

> *"Mae dyluniad y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn addas i brosiectau lleol llai, tymor byr sy'n debyg i'r dull a fabwysiadwyd ar gyfer rhaglenni Cronfeydd Strwythurol yr UE ar gyfer 2000-2006. Roedd gwersi a ddysgwyd o'r gwerthusiad annibynnol wedi arwain at gefnogi prosiectau mwy a rhai mwy strategol yn rhaglenni 2007-2013 a 2014-2020 i greu mwy o effaith economaidd a gwaddol."*[71]

**73.** Mae'r dystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwyd gan y Gweinidog Ffyniant Bro yn dweud ei bod yn rhy gynnar i ddod i gasgliadau ar effaith yr arian ar gyfer gwahanol sefydliadau neu sectorau, gan fod llawer o alwadau am gyllid yn parhau i fod ar agor. Dywedodd y Gweinidog:

> *"Organisations and sectors that were large beneficiaries of EU Structural Funds will need to consider how they adapt to the new funding landscape. This includes recognising that the UKSPF has a different focus, with an emphasis being placed on the strategic fit of project ideas to local priorities whilst aligning to the overarching aim of the fund to support pride in place and increase life chances."*[72]

**74.** Er i'r Pwyllgor glywed barn gan sefydliadau fel CGGC[73] bod llai o faich gweinyddol ar brosiectau bach o fewn un ardal awdurdod lleol nag a oedd o dan Gronfeydd Strwythurol, clywodd yr Aelodau hefyd am y rhwystrau a wynebwyd gan brosiectau a oedd am weithredu ar draws mwy nag un ardal awdurdod lleol wrth iddynt wneud cais am gyllid. Roedd Colegau Cymru yn teimlo bod haen wahanol o fiwrocratiaeth wedi cael ei chreu ar gyfer sefydliadau sy'n gwneud cais am arian mewn rhai rhannau o Gymru o ganlyniad i'r angen i wneud cais i nifer o awdurdodau lleol gwahanol ar gyfer prosiectau rhanbarthol.[74]

**75.** Rhoddodd CGGC enghraifft ymarferol o'r heriau yr oeddent wedi'u hwynebu wrth geisio sefydlu prosiect rhanbarthol ar draws y 6 awdurdod lleol yng ngogledd Cymru:

[71] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 8 Mehefin 2023, Papur tystiolaeth – Llywodraeth Cymru
[72] Llythyr oddi wrth Dehenna Davison AS, y Gweinidog Ffyniant Bro *(Saesneg yn unig)*
[73] Tystiolaeth ysgrifenedig – RDF16 *(Saesneg yn unig)*
[74] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 17 Mai 2023, Paragraff 33

> *"We've put in an application to north Wales through the open call; that was some months ago. Four local authorities we've still not heard from. One has said 'no', one has said 'yes'. So, we come to this; we're trying to put a regional plan together, but we've got six local authorities all viewing it through their own lens, against their own budgets, which are hugely different. So, it's become really difficult to actually achieve that regional work, despite some of the best efforts that are going on, especially in the north, in this space."*[75]

**76.** Nid yw hyn yn wir am sefydliadau mwy yn unig. Nododd PLANED, elusen datblygu cymunedol yn Sir Benfro sy'n gweithio gyda chymunedau ledled de orllewin Cymru, eu pryderon:

> *"Although each Local Authority promotes and controls the funds available at a county level, there is no promotion of regional opportunities in the wider sense genuinely, to enable cross border working and collaboration on sectors and deliverables which are demonstrably already delivered on a regional footprint. Therefore, some community led organisations such as PLANED, will in theory have to amend three separate but relatable bids to three different county funding pots, to retain parity of opportunity for those communities."*[76]

**77.** Dywedodd Chwarae Teg, o'r pedwar rhanbarth yng Nghymru, mae dau wedi mabwysiadu dull rhanbarthol at eu proses o wneud cais, sy'n golygu bod tua 18 o wahanol ffyrdd o wneud cais am y Gronfa Ffyniant Gyffredin. Dywedon nhw fod hyn wedi achosi heriau capasiti i sefydliadau sy'n gwneud cais am gyllid, a bod hyn wedi'i waethygu gan brosesau gwahanol ar gyfer gwneud cais am gymorth ar draws ardaloedd gwahanol.[77]

**78.** Clywodd y Pwyllgor themâu tebyg yn ystod ei waith ymgysylltu, gyda'r cyfranogwyr yn disgrifio'r sefyllfa fel a ganlyn:

> *"Digyswllt a dryslyd iawn – anodd cael gwybodaeth a gweld y darlun ehangach pan mae pob awdurdod lleol yn gwneud eu peth eu hunain. Mae diffyg arweiniad yn llesteirio'r broses."*

[75] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 17 Mai 2023, Paragraff 95
[76] Tystiolaeth ysgrifenedig – RDF02 *(Saesneg yn unig)*
[77] Tystiolaeth ysgrifenedig – RDF15 *(Saesneg yn unig)*

> *"Mae ymgysylltu â 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru y gall pob un ohonyn nhw benderfynu gwneud pethau'n wahanol iawn, yn defnyddio llawer iawn o adnoddau."*
>
> *"Mae'r agwedd tuag at y cyllid wedi bod yn wahanol ym mhob sir, heb unrhyw safoni ar gyfer ceisiadau gan y sector. Mae'n sefyllfa drist iawn lle rydyn ni wedi mynd o weithio'n dda mewn partneriaeth a dull teg ac agored o ran defnydd i'r darlun presennol."*

**79.** Soniodd FSB Cymru wrth yr Aelodau hefyd am yr effaith yr oedd prosesau gweinyddol gwahanol mewn gwahanol ardaloedd yn ei chael ar fusnesau bach a chanolig:

> *"They don't know if they're going to be able to access that funding in different regions. They don't know if that's even going to be available for them. That is not a way to engage small businesses in the process, or make sure we're supporting what is 99.4 per cent of enterprises in Wales.*
>
> *"The timescales vary across all the local authorities on when they want bids in. So, this makes it really difficult for SMEs who operate across regions as well, to try and navigate very different processes."*[78]

## Rôl Llywodraeth Cymru

**80.** Yn ganolog i drafodaethau ynghylch sut y dylid cynllunio a darparu'r gronfa yng Nghymru yw pa rôl, os o gwbl, y dylai Llywodraeth Cymru ei chwarae.

**81.** Ers datblygiad cynnar y Gronfa Ffyniant Gyffredin, bu gwahaniaeth barn rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynghylch lefel yr ymgysylltiad.

**82.** Dywedodd Gweinidog yr Economi wrth y Pwyllgor nad oedd gan Lywodraeth Cymru unrhyw rôl ystyrlon wrth benderfynu sut y dylid darparu'r Gronfa Ffyniant Gyffredin. Dywedodd fod Llywodraeth Cymru wedi ysgrifennu at Lywodraeth y DU i ofyn am gyfarfodydd ynglŷn â'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, a'i bod wedi codi'r gronfa mewn cyfarfodydd Gweinidogol eraill.[79] Dywedodd y Gweinidog y canlynol:

> *"…the engagement only took place in a two-week window. It took place in a two-week window with both officials and, finally,*

[78] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 17 Mai 2023, Paragraffau 101-102
[79] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 8 Mehefin 2023, Paragraff 50

*direct ministerial engagement. It was Neil O'Brien at the time. And so it was a very, very short window."*[80]

**83.** Clywodd Pwyllgor Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau Tŷ'r Cyffredin fod yr holl weinyddiaethau datganoledig yn anfodlon â lefel yr ymgysylltu a oedd wedi digwydd gyda Llywodraeth y DU wrth ddatblygu'r cronfeydd ffyniant gyffredin. Daeth y Pwyllgor hwnnw i'r casgliad a ganlyn:

> *"Where the DLUHC is seeking to provide funding in [policy] areas that are generally understood to be devolved, it is critical that the Department works hand in glove with the Devolved Governments. As such, through good communication and close collaboration, the Department should ensure the distribution of funding reflects the knowledge, expertise, and preferences of the Devolved Governments so far as it compatible with the purpose and objectives of the funding, whilst acknowledging the provisions under the UK Internal Markets Act. We recommend that in future the DLUHC ensures there is ongoing and more detailed engagement with the Devolved Governments at a level deemed sufficient by Wales, Northern Ireland, and Scotland to allow for emerging challenges to be addressed in a timely and efficient manner."*[81]

**84.** Mae gan Lywodraeth y DU farn wahanol, a dywedodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar y pryd wrth Bwyllgor Cyllid y Senedd ym mis Mehefin 2022 fod Llywodraeth y DU wedi bod yn siarad am y Gronfa Ffyniant Gyffredin gyda Llywodraeth Cymru ers iddo ddechrau yn ei swydd fel Ysgrifennydd Gwladol.[82]

**85.** Yn ystod ymchwiliad y Pwyllgor, galwodd yr holl dystion a roddodd dystiolaeth lafar am ganiatáu i Lywodraeth Cymru chwarae rhan yn y Gronfa Ffyniant Gyffredin wrth symud ymlaen, er bod safbwyntiau gwahanol wedi'u mynegi ynghylch sut y gallai hynny edrych yn ymarferol.

**86.** Roedd tystiolaeth ysgrifenedig y Gweinidog Ffyniant Bro yn nodi'r canlynol:

> *"The UK Government remains committed to building an effective working relationship with the Welsh Government in supporting local government to deliver the two funds (UKSPF and LUF) as well as wider opportunities, such as the*

[80] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 8 Mehefin 2023, Paragraff 32
[81] Y Pwyllgor Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau Tŷ'r Cyffredin, Cyllid ar gyfer Ffyniant Bro *(Saesneg yn unig)*
[82] Y Pwyllgor Cyllid, 30 Mehefin 2022, paragraff 433

> *Community Ownership Fund and the two new Freeports being created in Wales."*[83]

**87.** Roedd nifer o ymatebwyr eisiau gweld mwy o rôl i Lywodraeth Cymru, gan weithio ochr yn ochr â Llywodraeth y DU i ddarparu'r Gronfa Ffyniant Gyffredin.

**88.** Galwodd FSB Cymru am gydbwysedd rhwng model hynod ganolog a hyperleol:

> *"…is there some sort of model we could use that isn't hyper-localised or highly centralised? I think that's exactly right. But we have always said we do believe that Welsh Government should be involved in the shared prosperity fund, and there are a number of issues arising from them not being involved, such as that lack of overarching structure I've touched on earlier. We're also worried about that weakening of institutions and regional structures that are working really well here in Wales, such as Business Wales. We don't want to see those great supports for small businesses weakened."*[84]

**89.** Galwodd yr Athro Steve Fothergill ac Onward am gyfaddawd rhwng llywodraeth ganolog a lleol. Dywedodd yr Athro Fothergill y dylai'r manylion am sut y mae'r gronfa yn gweithredu gael eu datblygu yng Nghymru, gyda mwy o rôl i Lywodraeth Cymru nag ar hyn o bryd. Roedd yn teimlo mai synnwyr cyffredin oedd hyn, a'i bod yn amlwg ei fod yn anghywir osgoi Llywodraeth Cymru.[85]

**90.** Dywedodd y pedwar cynrychiolydd awdurdod lleol arweiniol a roddodd dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor wrthym eu bod am weld Llywodraeth Cymru yn cymryd rhan yn y Gronfa Ffyniant Gyffredin. Dywedodd y Cynghorydd James Gibson-Watt o Gyngor Sir Powys wrth y Pwyllgor nad oedd yn syniad da torri Llywodraeth Cymru allan o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin,[86] tra amlygodd y Cynghorydd Rob Stewart, o Gyngor Abertawe, ar y berthynas waith dda sydd wedi datblygu drwy ddatblygu Bargeinion Dinesig a Thwf, ac awgrymodd y dylid bod wedi defnyddio'r rhain ar gyfer y Gronfa Ffyniant Gyffredin.[87] Dywedodd y Cynghorydd Mark Norris, o Rondda Cynon Taf, y gallai Llywodraeth Cymru chwarae rhan wrth arwain y rhanbarthau a helpu i osgoi dyblygu.[88]

[83] Llythyr oddi wrth Dehenna Davison AS, y Gweinidog Ffyniant Bro *(Saesneg yn unig)*
[84] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 17 Mai 2023, Paragraff 128
[85] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 4 Mai 2023, Paragraff 118
[86] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 4 Mai 2023, Paragraff 250
[87] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 4 Mai 2023, Paragraff 261
[88] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 4 Mai 2023, Paragraff 195

**91.** Rhoddodd y Sefydliad Materion Cymreig yr enghraifft o borthladdoedd rhydd fel achos lle'r oedd Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru wedi cydweithio mewn modd cadarnhaol. Dywedodd fod cael dwy strategaeth economaidd sy'n uno'r ddwy lywodraeth yn dda i Gymru, ac os yw'r ddwy yn siarad yr un iaith, yna Cymru sy'n elwa.[89]

**92.** Roedd tystiolaeth ysgrifenedig y Sefydliad Materion Cymreig yn galw am rôl ffurfiol i'r llywodraethau datganoledig, ac awgrymodd sefydlu corff hyd braich i Gymru:

> *"…any future regional development funding in the UK to incorporate a formal role for the UK's devolved governments. Doing so would be a recognition of their important role in aligning policy priorities, recognising their democratic mandates and relationships with key regional actors. Given the political sensitivity of the issue, this could be achieved through an arm's length body, modelled on the now defunct Welsh European Funding Office, that brings together representatives of the two governments, as well as local authorities, business and civil society partners. This body could work to create shared strategic priorities to inform project bids, allocate funding and commission appropriate monitoring and evaluation processes."*[90]

**93.** Dadleuodd y Sefydliad Materion Cymreig hefyd fod dull Llywodraeth y DU yn ceisio osgoi'r strwythurau llywodraethu sydd wedi'u cyfansoddi drwy'r broses ddemocrataidd ac y mae'r Senedd yn craffu arnynt.[91] Roedd gan y Sefydliad bryderon difrifol am beth mae hyn yn ei olygu wrth sôn am atebolrwydd o ran y gwaith craffu y dylai seneddau ei wneud.[92]

**94.** Dywedodd Colegau Cymru y bydden nhw'n gwyro tuag at sefyllfa lle mae Llywodraeth Cymru'n ymwneud yn helaeth â'r broses, oherwydd yn y modd hwn gellir sicrhau cysondeb ar lefel Cymru gyfan lle bo angen hynny.[93]

**95.** Roedd eraill yn teimlo mai Llywodraeth Cymru ddylai chwarae'r brif rôl. Dywedodd Prifysgolion Cymru:

[89] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 4 Mai 2023, Paragraff 120
[90] Tystiolaeth ysgrifenedig – RDF25 *(Saesneg yn unig)*
[91] Tystiolaeth ysgrifenedig – RDF25 *(Saesneg yn unig)*
[92] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 17 Mai 2023, Paragraff 137
[93] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 1 Mai 2023, Paragraff 139

*"…we've had a position since late 2016 that the Welsh Government was the appropriate vehicle for any future funds; that view hasn't changed. The key issue is that Welsh Government touches all stakeholders who should be delivering in this space and should be able to deliver impact. I mean, just going back to part of the previous question, and whether they can deliver in small enough chunks to multiple beneficiaries, I mean, you're asking an awful lot of local authorities to do that on their own without using other stakeholders who are also well positioned to do that."*[94]

**96.** Mynegodd y Cynghorydd Dyfrig Siencyn o Gyngor Gwynedd farn debyg:

*Yn bersonol, dydw i ddim yn credu y dylai fod yna rôl o gwbl gan Westminster mewn datblygu economaidd yng Nghymru, ac y dylai fod yr holl waith yma'n cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru. Dyna yw fy marn i. Felly, mi gawn ni weld beth ddaw o hynny."*[95]

**97.** Soniodd Gweinidog yr Economi wrth y Pwyllgor am ei hoff ddull o ddarparu'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yng Nghymru, gan ddweud y canlynol:

*"I think you'd need to have some overarching approach. And given that we're not in the EU, that would come from a UK Government of any form. But the decision making that we previously undertook and the detail of that, I think, should still be here, and that should work in partnership with our regions and our partners. That's what we've set out in the regional investment framework. So, we want to make sure that we still understand what that approach looks like, how we work with partners, and how this place is still able to properly and effectively scrutinise what we're doing."*[96]

**98.** Dywedodd y Gweinidog hefyd ei fod yn disgwyl ymgysylltu â Llywodraeth y DU ynghylch dylunio themâu eang y gellid gwario arian y Gronfa Ffyniant Gyffredin arnynt, ond o dan y setliad datganoli y dylai fod gan Lywodraeth Cymru y gallu i ddylunio a darparu'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yng Nghymru.[97]

[94] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 4 Mai 2023, Paragraff 258
[95] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 4 Mai 2023, Paragraff 258
[96] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 8 Mehefin 2023, Paragraff 126
[97]Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 8 Mehefin 2023, Paragraffau 130 a 132

**99.** Clywodd y Pwyllgor hefyd gan nifer o dystion am yr effeithiau negyddol o beidio â chynnwys Llywodraeth Cymru yn y trefniadau ar gyfer y Gronfa Ffyniant Gyffredin, yn enwedig o ran achosion posibl o ddyblygu ymdrechion. Mynegodd FSB Cymru ei bryderon ynghylch dyblygu cymorth busnes:

> *"…many similar applications [are] likely to come in across Wales and that duplication in awarding these similar applications may not be the best value for money or the most efficient way of delivering these projects. For example, where sustainability or net-zero focussed initiatives provided under the Shared Prosperity Fund may clash with money already available through Development Bank of Wales Funding, or where the two together could add more value and be mutually reinforcing."*[98]

**100.** Tynnodd CGGC sylw at y posibilrwydd o ddyblygu polisi sgiliau, gan nodi:

> *"A variety of employability services are delivered by the Welsh Government, the DWP and the local authorities, and the fragmented implementation of the UKSPF could result in a whole range of new local interventions that are not integrated and coordinated with other existing provision."*[99]

**101.** Dywedodd Gweinidog yr Economi fod Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol i geisio osgoi dyblygu. Dywedodd fod hyn wedi bod yn effeithiol i ryw raddau, ond gan nodi hefyd:

> *"…the difficulty is when they're [local authorities] then required to nevertheless put in bids against a short time frame against a list of areas, and the areas are narrow and they include skills. It's very hard if you're running a local authority to say, 'We're not going to do anything in that area', because you also know that money has come out of the skills pot because of the way that the funds have bypassed the Welsh Government."*[100]

**102.** Mae Pennod 7 o'r adroddiad hwn yn trafod pryderon ynghylch dyblygu posibl yn sgil y rhaglen Lluosi yn fanylach.

[98] Tystiolaeth ysgrifenedig – RUF07 *(Saesneg yn unig)*
[99] Tystiolaeth ysgrifenedig – RUF16 *(Saesneg yn unig)*
[100] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 8 Mehefin 2023, Paragraff 58

## Amserlenni i sefydlu a darparu'r gronfa

**103.** Er bod awdurdodau lleol yn hapus gyda'u rôl gynyddol wrth ddarparu'r gronfa, roedd pawb a roddodd dystiolaeth yn feirniadol o'r amserlenni a osodwyd gan Lywodraeth y DU ar gyfer cyflwyno cynlluniau buddsoddi ac ar gyfer dyrannu'r gronfa.

**104.** Rhoddodd y Cynghorydd Rob Stewart o Gyngor Abertawe grynodeb o'r pryderon a godwyd gan awdurdodau lleol, gan nodi:

> *"...we were handed an almost impossible task of money coming late, lack of clarity around how you can spend it, lack of clarity about how you can allocate it, and then potentially being criticised at the end. So, I come back to the same point: let's be sensible about this. We were offered a three-year programme; let's give people three years to deliver it."*[101]

**105.** Clywsom bryderon tebyg gan gyrff sy'n cynrychioli llywodraeth leol yn Lloegr a'r Alban. Dywedodd y Gymdeithas Llywodraeth Leol wrthym:

> *"The delays in the approval of investment plans, the initial restrictions on in-year spending and the short-term nature of the fund have created a challenge for lead authorities to use the funding in a long term, innovative manner and maximise the use of the fund to leverage other public and private funding streams."*[102]

**106.** Dywedodd Confensiwn Awdurdodau Lleol yr Alban fod yr amserlenni ar gyfer cyflwyno cynlluniau buddsoddi bron yn amhosibl i awdurdodau lleol oherwydd etholiadau'r Alban ym mis Mai 2022, a bu'n rhaid i rai awdurdodau lleol ofyn am estyniadau i'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau. Dywedodd hefyd fod yr oedi cyn i Lywodraeth y DU gymeradwyo cynlluniau buddsoddi yn golygu y byddai angen rhuthro i gyflawni dros gyfnod byrrach o amser.[103]

**107.** Tynnodd y Cynghorydd Dyfrig Siencyn o Gyngor Gwynedd sylw at yr effeithiau y gall amserlenni byrrach eu cael ar y mathau o brosiectau y gellir eu hariannu o dan y Gronfa Ffyniant Gyffredin yng Nghymru, gan nodi:

> *"Mae'r amser yn brin, ac mewn difri, 18 mis sydd gennym ni i weithredu, i wario'r arian yma. Bydd rhaid ein bod wedi ei wario*

[101] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 4 Mai 2023, Paragraff 275
[102] Tystiolaeth ysgrifenedig – RDF27 *(Saesneg yn unig)*
[103] Tystiolaeth ysgrifenedig – RDF19 *(Saesneg yn unig)*

*fo erbyn diwedd y flwyddyn 2024 er mwyn gallu gwneud ceisiadau erbyn Mawrth 2025. Felly, mae hynna'n cyfyngu'r prosiectau rydyn ni'n gallu rhoi ymlaen, â dweud y gwir. Mae yna gynlluniau teilwng iawn, fel y cyfeiriodd fy nghyfaill i yn fanna. Dydyn ni ddim yn gallu eu gweithredu nhw, oherwydd byddwn ni ddim yn gallu gwario'r arian mewn pryd, ac mae hynny'n gyfyngiad sylweddol iawn, iawn."*[104]

**108.** Dywedodd CGGC y bydd y materion ynghylch amserlenni ar gyfer cyflawni a'r cyfnod cyllido yn creu anawsterau sylweddol o ran cyflawni amcanion y Gronfa Ffyniant Gyffredin. Nododd:

*"…we are broadly supportive of the strategic and policy direction of the UKSPF, however, the operational implementation, especially the timescales of delivery and the current end date of the funding means that, in our view, the stated aims of the UKSPF are not achievable."*[105]

**109.** Yn ei sesiwn dystiolaeth gyda'r Pwyllgor ymhelaethodd CGGC ar hyn:

*"We're talking about dealing with deep-rooted, long-standing issues here of disparity and inequality, and the voluntary sector projects that we're going to see coming out of UK SPF are probably going to be measured in months, in terms of actual delivery. We all know that that's not really going to make a difference, in terms of what we want to see and what the policy context of levelling up really sets out."*[106]

**110.** Mynegwyd pryderon gan sefydliadau gan gynnwys Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf[107] a Chynghrair Cymunedau Diwydiannol Cymru[108] bod amserlenni byrrach yn lleihau'r gallu i ddatblygu ac ariannu rhaglenni trawsnewidiol. Yn ôl y Sefydliad Materion Cymreig:

*"We are already seeing a real difference from ESI, with programmes not now announced several years in advance of commencement. This makes it difficult for partners or recipients to plan in advance or coordinate across different areas, and it means that 'shovel ready' projects may be*

[104] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 4 Mai 2023, Paragraff 183
[105] Tystiolaeth ysgrifenedig – RDF16 *(Saesneg yn unig)*
[106] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 17 Mai 2023, Paragraff 39
[107] Tystiolaeth ysgrifenedig – RDF06 *(Saesneg yn unig)*
[108] Tystiolaeth ysgrifenedig – RDF12 *(Saesneg yn unig)*

*prioritised over more strategically important, longer term projects. This could have significant consequences for Wales' transition to a net zero economy amongst other things, as difficult decisions and longer term investment need to be made to encourage and give confidence to accompanying private sector investment."*[109]

**111.** Fe wnaeth yr Athro Steve Fothergill godi'r mater hwn hefyd. Honnodd fod cael rhaglen gyllido tair blynedd, yn hytrach na dull tymor hwy, yn effeithio'n negyddol ar y canlyniadau a'r gwerth am arian y gellir eu cael o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin:

*"It's certainly true that, in London, the department for levelling up, or at least their officials, recognise that they're getting poor quality results on the ground because of the very short timescale of the shared prosperity fund. I think, at some levels in the Treasury, that's also recognised, I've got to say. But the Treasury is wedded to certain rules. They like to control how much is spent in each financial year, and they don't like to commit money beyond the end of spending review periods, which are typically three years, or at the very, very most four years. The present one is a three-year one, running until March 2025. We'd expect a new spending review probably at the back end of next year. We've got to break down that mindset in the Treasury. They've got to understand that if they really want value for money, they've got to start being more flexible in terms of the duration of the spending programmes that they run."*[110]

**112.** Tynnodd y rhai a gymerodd ran yng ngwaith ymgysylltu'r Pwyllgor sylw at rai o'r effeithiau y mae hyn wedi'u cael ar eu sefydliadau:

*"Mae wedi teimlo'n frysiog iawn. Mae manylion wedi bod yn araf i ddod i'r amlwg a disgwyliwyd cynllunio ac roedd amserlenni cyflwyno yn dynn iawn."*

*"Fe wnaeth cyllid tymor hwy yr UE ganiatáu i hynny gael ei gadw a'i hyrwyddo, ond gyda'r cyllid sy'n cael ei hyrwyddo nawr, sef 12-18 mis*

[109] Tystiolaeth ysgrifenedig – RDF25 *(Saesneg yn unig)*
[110] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 4 Mai 2023, Paragraff 95

> *ar y mwyaf, nid yw'n hyrwyddo'n gadarnhaol cadw sgiliau gan fod angen sicrwydd mwy hirdymor ar staff."*

**113.** Roedd y dystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwyd gan Lywodraeth y DU yn derbyn bod rhai awdurdodau lleol wedi cael anawsterau gyda'r amserlenni a ddarparwyd:

> *"It has been acknowledged that some local authorities found certain timescales challenging, and DLUHC officials are in regular contact with the WLGA and local authorities to support them to achieve the intended outcomes of all Levelling Up funding opportunities available to Wales…*
>
> *"DLUHC has provided extensive financial support to Welsh local authorities in helping them to deliver both the UKSPF and the LUF. This includes £125,000 capacity funding to each local authority in Wales at the outset of the LUF, a total £130,000 in capacity funding to local authorities successful in round two of fund, and a further £40,000 to each lead local authority to support the development of their UKSPF Investment Plans."*[111]

## Gweinyddiaeth awdurdodau lleol o'r gronfa

**114.** Dywedodd rhai sefydliadau wrthym fod awdurdodau lleol yn blaenoriaethu eu prosiectau eu hunain cyn i sefydliadau eraill gael cyfle i gael mynediad at y gronfa. Roedd Colegau Cymru yn teimlo bod hon yn broblem arbennig yn ne-ddwyrain Cymru:

> *"…current progress in South East Wales has resulted in a continuation of local authority led projects, some of which were funded through ESF and are getting first priority on the use of SPF, and this has diminished the opportunity for FE, HE and third sector to seek replacement funding or new funds to continue previous or deliver new projects."*[112]

**115.** Ymhelaethodd Colegau Cymru ar hyn mewn tystiolaeth lafar, gan ddweud:

> *"…from a south-east Wales perspective, I think most local authorities have looked internally first, in terms of the opportunity to continue or extend projects. From Cardiff and*

[111] Llythyr oddi wrth Dehenna Davison AS, y Gweinidog Ffyniant Bro *(Saesneg yn unig)*
[112] Tystiolaeth ysgrifenedig – RDF11 *(Saesneg yn unig)*

*Vale's perspective, we've had really good engagement with both local authorities over the last 12 months or so, but, ultimately, it comes down to decisions of how those budgets are allocated at a local authority level. And some have come out with a sort of open-call opportunity locally; others haven't yet, because, I suppose, they're not sure of exactly what gap they may have in terms of how much funding they're not able to commit to through their own local authority before seeking external partners to deliver."*[113]

**116.** Mynegodd Prifysgol Caerdydd bryderon tebyg:

*"Local Authorities in the Cardiff Capital Region (CCR) are facing severe budget constraints. This creates a culture of protectionism over the SPF allocation as a means to cover not just the lost ESF, but also cuts to budgets more generally, and they are therefore prioritising projects more locally."*[114]

**117.** Codwyd pryderon tebyg hefyd gan unigolion a sefydliadau sy'n cymryd rhan mewn gwaith ymgysylltu, gyda'r ymatebwyr yn nodi:

> *"Mae'n amlwg iawn mewn rhai ardaloedd fod y cyllid wedi'i ddefnyddio i gynnal diffygion llywodraeth leol ac nid oes unrhyw un wedi dod allan ar gyfer ceisiadau agored gan y trydydd sector."*
>
> *"Ar ôl Brexit, mae'r holl gyllid wedi mynd i awdurdodau lleol ac, o ystyried cyflwr eu cyllid, ychydig iawn ohono sydd wedi'i gynnig i'r sector gwirfoddol fel grantiau neu fel prosiectau partneriaeth."*

## Cymorth i awdurdodau lleol ddarparu'r gronfa

**118.** Clywodd y Pwyllgor gan nifer o sefydliadau a ddywedodd bod gan eu swyddogion gydberthnasau da â'u cymheiriaid yn Llywodraeth y DU.

**119.** Dywedodd Cyngor Sir Fynwy fod swyddogion Llywodraeth y DU yn gefnogol iawn a dywedodd fod ganddyn nhw linellau cyfathrebu da,[115] tra dywedodd y

[113] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 17 Mai 2023, Paragraff 97
[114] Tystiolaeth ysgrifenedig – RDF24 *(Saesneg yn unig)*
[115] Tystiolaeth ysgrifenedig – RDF17 *(Saesneg yn unig)*

Cynghorydd Dyfrig Siencyn fod Cyngor Gwynedd wedi "datblygu perthynas bur dda gyda swyddogion Llywodraeth UK".[116]

**120.** Dywedodd Colegau Cymru yn eu tystiolaeth ysgrifenedig:

> *"We have held regular and useful conversations with the colleagues in the UK Government Wales Office and the Department for Levelling Up. We found that facilitating this relationship has proved useful, particularly for those members who have found communicating at a regional and local level more challenging, as it acts as a forum for colleges to share their experiences, voice concerns, and provide feedback in real time as the programme develops."*[117]

**121.** Fodd bynnag, nododd sefydliadau sy'n cynrychioli llywodraeth leol Cymru a Lloegr nifer o achosion lle'r oeddent yn teimlo nad oedd ganddynt gymorth, gwybodaeth nac arweiniad digonol gan Lywodraeth y DU, sydd wedi cael effeithiau negyddol ar ddarparu'r Gronfa Ffyniant Gyffredin.

**122.** Nododd y Gymdeithas Llywodraeth Leol sawl un o'r achosion hyn:

> *"In January 2023, Ministers confirmed that lead authorities could roll over funding between years if there is a "credible plan". Had this been known at the development of the investment plan phase (April 2022 - 1 August 2023), many lead authorities would have made different decisions.*
>
> *"Grant determination letters for 2023/24 will not be received until the credible plans have been assessed (expected in May 2023), meaning many lead authorities will be in the position of spending UKSPF at risk. Some lead authorities have tried to mitigate this risk, such as running grants programmes where funding can be released once DLUHC has confirmed their funding.*
>
> *"Government provided limited detail of the evaluation strategy, which has left lead authorities in the position of having to commission projects without knowing what evaluation processes would be needed."*[118]

[116] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 4 Mai 2023, Paragraff 257
[117] Tystiolaeth ysgrifenedig – RDF11 *(Saesneg yn unig)*
[118] Tystiolaeth ysgrifenedig – RDF27 *(Saesneg yn unig)*

**123.** Gan edrych yn benodol ar Gymru, dywedodd CLlLC, er bod y dull ysgafnach yn galluogi awdurdodau lleol i ganolbwyntio ar gyflawni, mae hyn yn 'fendith ac yn felltith', gan nodi:

> *"…the light-touch approach in terms of monitoring spend and activity under SPF is causing unintended anxiety and uncertainty. Councils have become accustomed to monitoring imposed by the European Commission and enforced by WEFO but with SPF don't have prescriptive administrative processes. One concern, despite assurances, is whether additional reporting requirements will be introduced at a later stage, requiring retrospective and time-consuming gathering of information."*[119]

**124.** Dywedodd Cyngor Sir Penfro fod yr hyblygrwydd sydd ar waith yn rhyddhaol ond yn warthus, gan nodi: "rydym eisoes wedi cael ein boddi gan gwestiynau yn gofyn am gyfarwyddiadau ar faterion nad yw'r UKSPF yn cynnig unrhyw arweiniad arnynt."[120]

**125.** Ymhelaethodd y Cynghorydd Rob Stewart o Gyngor Abertawe ar hyn mewn tystiolaeth lafar:

> *"…in that respect, we are carrying a lot of risk at the moment. So, that flexibility does manifest itself in a risk in two ways really, one in terms of the points we've made previously about not having all of the information before proceeding to design the processes and then provide the calls to action."*[121]

**126.** Nododd hefyd nad oedd ganddynt y wybodaeth o ran y telerau ac amodau, na'r meini prawf angenrheidiol cysylltiedig, a oedd yn golygu y bu'n rhaid iddynt fwrw ymlaen yn wynebu risg o ran dosbarthu arian i brosiectau, neu symud tuag at y galwadau am weithredu.[122]

## Ychwanegedd

**127.** Clywodd yr Aelodau rywfaint o bryderon ynghylch colli 'ychwanegedd' gyda'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, a oedd yn rhan greiddiol o gyllid datblygu rhanbarthol yr UE. Dywedodd y Cynghorydd James Gibson-Watt wrth yr Aelodau fod colli ychwanegedd yn broblem arall. Nid oes amod o ran ychwanegedd yn y Gronfa

---

[119] Tystiolaeth ysgrifenedig – RDF05 *(Saesneg yn unig)*
[120] Tystiolaeth ysgrifenedig – RDF09
[121] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 4 Mai 2023, Paragraff 207
[122] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 4 Mai 2023, Paragraff 177

Ffyniant Gyffredin. Gellir ei ddefnyddio i gymryd lle cyllid a fyddai fel arall yn gyllid craidd arferol a ddefnyddir gan awdurdodau cyhoeddus yn unig. Mae hynny'n gamgymeriad gwirioneddol yn ei farn ef. Dywedodd ei fod yn meddwl y dylai fod yn rhaid cael ychwanegedd ar gyfer y math hwn o brosiect, a dyna oedd un o gryfderau cyllid Ewropeaidd, sef bod yn rhaid i chi ddarparu arian cyfatebol ac roedd yn rhaid iddo fod yn ychwanegol at yr hyn y byddai disgwyl i chi ei wneud fel arall . Roedd yr amod hwnnw wedi gwneud gwahaniaeth mawr yn ei farn ef.[123]

**128.** Mynegwyd pryderon hefyd ynghylch diffyg ychwanegedd yng ngwaith ymgysylltu'r Pwyllgor. Dywedodd un ymatebwr: "Mae'n amlwg iawn mewn rhai ardaloedd fod y cyllid wedi'i ddefnyddio i gynnal diffygion llywodraeth leol ac nid oes unrhyw un wedi dod allan ar gyfer ceisiadau agored gan y trydydd sector."

## Barn y Pwyllgor

**129.** Er mai megis dechrau y mae awdurdodau lleol a rhanbarthau o ran darparu'r gronfa, mae nifer o feysydd lle mae consensws rhwng llawer o'r sefydliadau yr ydym wedi cael tystiolaeth ganddynt o ran yr hyn sy'n gweithio'n dda, a meysydd lle mae angen gwneud newidiadau neu welliannau. Gellir dysgu gwersi o'r broses o ddarparu'r gronfa hyd yn hyn, a dylid cymhwyso'r rhain i gyllid yn y dyfodol ar ôl 2025. Wrth nodi ein casgliadau a'n hargymhellion, rydym yn ymwybodol o'r ymdrechion sylweddol a wnaed gan awdurdodau lleol i roi'r Gronfa Ffyniant Gyffredin ar waith yn eu hardal leol, a hoffem gofnodi ein cydnabyddiaeth o hyn.

**130.** Er bod y Pwyllgor yn cydnabod bod gwerth mewn darparu rhai agweddau ar y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn lleol, clywodd yr Aelodau am broblemau a wynebwyd mewn perthynas â phrosiectau sy'n cael eu darparu dros ardal ehangach nag un awdurdod lleol. Mae gwerthusiadau o gynlluniau ariannu blaenorol yr UE wedi canfod y gall y rhain fod â buddion strategol ac economaidd sylweddol. Nid yw'r heriau hyn wedi cael eu datrys yn llawn yn ystod datblygiad y Gronfa Ffyniant Gyffredin, ac maent wedi arwain at ganlyniadau anfwriadol megis creu haen wahanol o fiwrocratiaeth a amlygwyd gan Golegau Cymru. Er enghraifft, clywsom am sefydliadau a oedd am weithio ar draws mwy nag un ardal ddaearyddol y bu'n rhaid iddynt gyflwyno nifer o geisiadau, ac yn aml roedd angen bodloni meini prawf gwahanol ar draws ardaloedd gwahanol.

**131.** Mae'r Pwyllgor wedi clywed tystiolaeth gan ystod eang o sefydliadau bod Llywodraeth y DU yn gweithio'n uniongyrchol gydag awdurdodau lleol ar y Gronfa Ffyniant Gyffredin, a bod ei phenderfyniad i beidio â chynnwys Llywodraeth Cymru yn y gwaith o'i chyflwyno wedi cyfrannu at broblemau fel dyblygu posibl,

[123] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 4 Mai 2023, Paragraff 164

anawsterau wrth gyflwyno prosiectau ar draws ardaloedd sydd â mwy nag un ardal awdurdod lleol, a diffyg atebolrwydd i'r Senedd am arian sy'n cael ei wario yng Nghymru. Mae rhanddeiliaid o’r farn bod absenoldeb unrhyw gydgysylltu ar lefel Llywodraeth Cymru o ran datblygu neu ddarparu’r Gronfa Ffyniant Gyffredin wedi cael effaith negyddol, a dylai fod ganddi rôl glir mewn perthynas â chyllid a ddyrennir ar ôl 2025. Dylai hyn fod yn rhan o waith ehangach i adolygu a yw'n well darparu ymyriadau mewn meysydd penodol o fewn y Gronfa Ffyniant Gyffredin ar lefel leol, rhanbarthol, neu ar lefel genedlaethol ddatganoledig.

**132.** Mae’r diffyg amser sydd ar gael i awdurdodau lleol baratoi cynlluniau buddsoddi wedi effeithio ar eu gallu i gynllunio a sicrhau’r effaith fwyaf posibl gan ddefnyddio’r cyllid sydd ar gael. Clywodd yr Aelodau fod hyn wedi’i waethygu gan oedi wrth roi’r rhaglen ar waith, sydd wedi arwain at geisio cyflawni rhaglen dair blynedd o fewn 18 mis. Tynnwyd sylw hefyd at y cyfnod amser byrrach o'i gymharu â Chronfeydd Strwythurol, gyda phryder eang y bydd yn cyfyngu ar y gallu i ddatblygu prosiectau trawsnewidiol, ac yn arwain at ganlyniadau gwaeth a diffyg gwerth am arian. Dylai'r rhaglen gyllido ar ôl 2025 hwyluso cynllunio strategol, cydlynu, cydgynhyrchu a gweithio mewn partneriaeth a rhannu adnoddau i gyflawni prosiectau adfywio economaidd 'gwerth ychwanegol' tymor hwy gyda'r potensial mwyaf ar gyfer datblygu rhanbarthol.

**133.** Roedd y Pwyllgor yn falch o glywed bod Llywodraeth y DU a swyddogion awdurdodau lleol wedi meithrin perthnasoedd gwaith da, a bod awdurdodau lleol wedi croesawu'n eang bod ganddynt hyblygrwydd i ddarparu’r Gronfa Ffyniant Gyffredin. Fodd bynnag, mynegwyd pryderon hefyd fod y canllawiau wedi cael eu darparu'n hwyr, a bod diffyg eglurder ynghylch gofynion monitro ac adrodd. Mae’n bosibl y bydd y materion hyn yn cael effaith anghymesur ar awdurdodau lleol mewn gwledydd datganoledig, sydd â llai o brofiad o weithio’n uniongyrchol gyda Llywodraeth y DU na’u cymheiriaid yn Lloegr.

**134.** Roedd ychwanegedd hefyd yn elfen bwysig o Gronfeydd Strwythurol yr UE ac mae'r Aelodau'n teimlo efallai y byddai’n fuddiol ailedrych ar y gofyniad hwn wrth ddylunio'r cronfeydd newydd.

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth y DU ystyried sut y gallai Llywodraeth Cymru gynorthwyo i ddarparu a dylunio cylch nesaf y Gronfa Ffyniant Gyffredin.

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU gynnal adolygiad i weld a ddylai gwahanol elfennau’r Gronfa Ffyniant Gyffredin gael eu darparu ar lefel leol, ar lefel ranbarthol neu ar lefel Cymru gyfan, yn seiliedig ar yr hyn sy’n gweithio orau.

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth y DU werthuso'r dull rhanbarthol o ddarparu'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yng Nghymru. Dylai hyn ystyried sut y mae dull awdurdodau lleol o wneud penderfyniadau unigol o fewn fframwaith rhanbarthol yn diwallu anghenion sefydliadau sy’n ceisio cyllid, a hefyd a yw’r dull hwn yn rhoi mwy o faich o ran monitro a gwerthuso nag y mae awdurdodau lleol unigol yn Lloegr yn ei wynebu.

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth y DU, gan weithio gyda Llywodraeth Cymru, sefydlu corff Cymru gyfan i gefnogi gwaith cydgysylltu rhanbarthol wrth ddarparu’r Gronfa Ffyniant Gyffredin.

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth y DU flaenoriaethu gweithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau nad yw'r ymyriadau sy'n cael eu hariannu a'u darparu drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn dyblygu'r rhai sydd eisoes ar waith. Dylai Llywodraeth y DU gynnwys Llywodraeth Cymru yn y gwaith hwn.

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth y DU gytuno ar gyfnod cyllido hwy ar gyfer cylchoedd cyllido’r Gronfa Ffyniant Gyffredin ar ôl 2025. Dylai’r cytundeb hwn gael ei wneud gyda mewnbwn gan Lywodraeth Cymru, a dylai hyn gynnwys digon o amser i gyllidwyr, a'r rhai sy'n ymwneud â phrosiectau, gynllunio a chyflwyno rhaglenni a phrosiectau sy'n sicrhau'r buddion mwyaf.

**Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth y DU sicrhau bod ei gwerthusiad o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn canolbwyntio'n ddigonol ar brofiad sefydliadau a leolir yng Nghymru, a'i bod yn cynnal ac yn cyhoeddi ymarfer o’r gwersi a ddysgwyd fel rhan o'i strategaeth werthuso.

**Argymhelliad 10.** O ystyried y pryderon a godwyd gan rai sefydliadau bod awdurdodau lleol mewn rhai rhannau o Gymru yn blaenoriaethu eu prosiectau eu hunain ar gyfer cyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin, dylai Llywodraeth y DU edrych ymhellach i hyn a chymryd unrhyw gamau angenrheidiol i sicrhau bod pob sefydliad yn cael cyfle i elwa ar y cyllid hwn.

**Argymhelliad 11.** Dylai Llywodraeth y DU adolygu ei dull o lunio canllawiau ar y Gronfa Ffyniant Gyffredin i sicrhau'r eglurder mwyaf posibl i awdurdodau lleol, gan ystyried y bydd gan awdurdodau lleol Cymru lai o brofiad o weithio'n uniongyrchol â Llywodraeth y DU nag awdurdodau Lloegr.

**Argymhelliad 12.** Dylai Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ystyried ailedrych ar ofynion ynghylch ychwanegedd ar gyfer unrhyw ffrydiau cyllido datblygu economaidd yn y dyfodol.

# 6. Cynaliadwyedd, recriwtio a chadw

**135.** Clywodd yr Aelodau dystiolaeth fod y cyfnod byrrach o amser i wario'r cyllid a geir o dan y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn achosi problemau ynghylch cynaliadwyedd prosiectau, yn enwedig o safbwynt staffio. Dywedodd y Cynghorydd Mark Norris wrth yr Aelodau nad oedd hyn yn gymaint o broblem i gynghorau ond i'r cyrff hynny yn y trydydd sector, elusennau neu fusnesau sy'n gwneud cais am y grantiau. Esboniodd hefyd fod yr amserlen fer honno o ddwy flynedd yn ei gwneud yn anodd iawn, yn gyntaf, i ddenu unrhyw staff profiadol i wneud y swyddi hynny, i'w gwneud yn swyddi gwerth chweil i'w cyflawni, ond hefyd i feithrin sgiliau staff newydd i wneud y swyddi hynny yn y dyfodol, a hynny oherwydd erbyn iddynt ennill y sgiliau hynny, mae'n debygol o fod yn agos at ddiwedd y rhaglen.[124]

**136.** Adleisiodd CGGC y pryderon hyn gan esbonio, er bod cyllid wedi'i gadarnhau tan fis Mawrth 2025, fod angen cwblhau prosiectau erbyn diwedd mis Rhagfyr 2024, a hynny er mwyn caniatáu amser ar gyfer cau'r rhaglen. Golyga hyn na fydd hyd y prosiect yn cymryd mwy na 18 mis i'w gyflawni. Yn sgil hyn, esboniodd y Cyngor ei fod yn rhagweld anawsterau wrth recriwtio staff prosiect ar gyfer rolau dros dro yn y tymor byr. Dywedodd fod natur fyrdymor Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yn gwrthgyferbynnu'n llwyr â chylchoedd ariannu amlflwydd y Cronfeydd Strwythurol, a oedd yn rhoi sefydlogrwydd ac yn galluogi prosiectau i gael eu hariannu am gyfnod llawer hwy.[125]

**137.** Tynnodd CGGC sylw hefyd at effaith bosibl diwedd Cronfeydd Strwythurol ar swyddi pobl, gan nodi'r swyddi a gollwyd yn ei sefydliad ei hun:

> *"23,000 people that were being supported by a project that was joined up with Welsh Government activity and Department for Work and Pensions activity, was an ecosystem that worked and was understood, and so we could pass people from the very furthest away from the labour market into activity like…FE and DWP activity, that has all now gone. That infrastructure and that ability to deliver at scale has meant that the WCVA has lost around about 25 members of staff who've been doing that for 20 years to enable that work to happen in our communities."*[126]

[124] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 4 Mai 2023, Paragraff 229
[125] Tystiolaeth ysgrifenedig – RDF 16 *(Saesneg yn unig)*
[126] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 17 Mai 2023, Paragraff 45

**138.** Roedd cyfranogwyr yng ngwaith ymgysylltu’r Pwyllgor hefyd yn bryderus iawn am effaith cyllid ar staff yn y trydydd sector a’u gwaith. Dywedodd ymatebwyr:

> *“Mae’r bwlch rhwng diwedd cyllid yr UE a dechrau cyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin eisoes wedi gweld profiad ac arbenigedd yn cael eu colli o fewn y trydydd sector.”*
>
> *“Bu diffyg sefydlogrwydd ers diwedd cyllid yr UE, ac ni allai sawl aelod o staff gael eu contractau wedi’u hymestyn o ganlyniad i hyn. Mae'r diffyg gwybodaeth aruthrol a'r anallu i gadw at yr amserlenni arfaethedig yn chwerthinllyd. Bydd yr effeithiau ar ddefnyddwyr terfynol yn cael eu teimlo am flynyddoedd i ddod.”*

**139.** Mae rhai o'r effeithiau mwyaf difrifol ar swyddi a phrosiectau yn debygol o gael eu gweld yn y sector prifysgolion. Dywedodd Prifysgolion Cymru wrthym fod dros 1,000 o swyddi hyfedr ym mhrifysgolion Cymru mewn perygl o ganlyniad i golli cyllid Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd. Dywedodd hefyd fod y prifysgolion mewn perygl o golli talent a chapasiti ymchwil sylweddol ledled Cymru ac nad oedd digon o gyllid amgen, ac nad yw Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yn darparu hyn.[127]

**140.** Mae Prifysgolion Cymru wedi galw am £70 miliwn o gyllid pontio gan Lywodraeth y DU i sicrhau capasiti i wneud penderfyniadau strategol tymor hwy ynghylch a ddylid parhau i gynnal prosiectau ymchwil unigol, a sut i barhau i wneud hyn, yn hytrach na gadael iddynt fethu wrth i Gronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd ddod i ben. Mewn tystiolaeth lafar, dywedodd Prifysgolion Cymru ei fod yn dal i aros am ymateb ar hynny ac yn gweithio gyda Phrifysgolion y DU ar y mater. Esboniodd hefyd y bydd angen cyllid pontio ar ardaloedd eraill o’r DU yn yr un modd.[128]

**141.** Nododd TUC Cymru ac Undeb Prifysgolion a Cholegau (UCU) Cymru risgiau penodol i swyddi yn y sector prifysgolion mewn llythyr ar y cyd at y Pwyllgor. Nodwyd bod o leiaf 60 o brosiectau a 1000 o swyddi mewn perygl ledled Cymru. Esboniwyd bod y rhan fwyaf o'r rhai yr effeithir arnynt yn gweithio ar gontractau nad ydynt yn rhai parhaol a bod llawer wedi bod yn gweithio fel hyn ers dros ddegawd, ond bod colli cronfeydd strwythurol yn golygu y bydd y ffrydiau gwaith hyn yn dod i ben. Esboniwyd hefyd, o ystyried pwrpas hanesyddol cyllid strwythurol, y bydd yr effaith yn debygol o ddisgyn mewn meysydd strategol

[127] Tystiolaeth ysgrifenedig – RDF 13 *(Saesneg yn unig)*
[128] Tystiolaeth ysgrifenedig – RDF 13 *(Saesneg yn unig)*

megis gweithgynhyrchu uwch, systemau ynni, sero net, a thechnoleg iechyd. Felly, dywedodd fod y perygl i Gymru ddwywaith mor wael. Pwysleisiwyd bod y niweidiau hyn yn digwydd yn y presennol yn eu barn hwy ac er gwaethaf pryder ac ansicrwydd staff ymchwil, nodwyd bod y difrod a wneir i ecoleg ymchwil ehangach Cymru yn argoeli crebachiad mewn disgyblaethau strategol a meysydd casglu gwybodaeth, sef sylfaen yr economi wybodaeth.[129]

**142.** Awgrymodd TUC Cymru ac UCU Cymru:

> *"As an immediate measure, we propose an urgent 6-way meeting between the Universities, their governing bodies, UCU Cymru, HEFCW, Welsh and Westminster governments to establish urgent bridging funding for the scientists and related staff who will lose their jobs this year as a result of withdrawal of structural funds."*[130]

**143.** Adleisiodd Gweinidog yr Economi rai o'r pryderon hyn. Yn ei bapur tystiolaeth, bu'r Gweinidog yn trafod culhau'r cwmpas ar gyfer cyllid a'r amserlen fyrrach ar gyfer gwariant:

> *"cafodd tua £380m o raglenni 2014-2020 yr UE ei fuddsoddi mewn Ymchwil ac Arloesi. Nid yw hwn yn faes buddsoddi cymwys. Mae hyn yn golygu na fydd y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn darparu cyllid i fuddsoddiadau ymchwil ac arloesi gwerth miliynau o bunnoedd sy'n cefnogi cydweithio rhwng busnesau a'r byd academaidd i sicrhau twf. O ganlyniad, mae amrywiaeth o sectorau wedi sôn eu bod wedi gorfod colli llawer iawn o swyddi a chau prosiectau allweddol mewn meysydd gan gynnwys datgarboneiddio, ynni adnewyddadwy a sgiliau diwydiannol."*

**144.** Disgrifiodd y Gweinidog yr angen i weddill y DU ddal i fyny â gwariant Ymchwil a Datblygu Llundain a De-ddwyrain Lloegr. Dywedodd wrth y Pwyllgor:

> *"Welsh universities have not accessed UK-wide funds as successfully as other parts of the UK. There's broadly an imbalance between London and the south-east of England, and a couple of universities in Scotland that do very well, and the rest of the UK that hasn't done anything like as well. So, when DLUHC said that they had an ambition to level up by a*

[129] Llythyr oddi wrth Cyngres yr Undebau Llafur (TUC) Cymru *(Saesneg yn unig)*
[130] Llythyr oddi wrth Cyngres yr Undebau Llafur (TUC) Cymru *(Saesneg yn unig)*

> *large percentage the amount of research funding that goes into other parts of the UK, the thing is that it's starting from such a low base that it doesn't get us to anything like parity. So, the design of the UK Government is also a challenge here. You've got the levelling-up department, who don't control what's happening on the research, development and innovation budget."* [131]

**145.** Nododd y Gweinidog dros Ffyniant Bro nad yw'r Cronfa Ffyniant Gyffredin yn gopi uniongyrchol o gronfeydd yr UE ac felly byddai'r dirwedd ariannu a'r prosiect yn newid. Dywedodd y Gweinidog:

> *"By its nature we expect a different mix of interventions and projects to come forward which are in line with the terms of the fund and importantly reflect local needs and priorities agreed by local leaders. Organisations and sectors that were large beneficiaries of EU Structural Funds will need to consider how they adapt to the new funding landscape. This includes recognising that the UKSPF has a different focus, with an emphasis being placed on the strategic fit of project ideas to local priorities whilst aligning to the overarching aim of the fund to support pride in place and increase life chances."*[132]

## Barn y Pwyllgor

**146.** Mae'r Aelodau'n rhannu pryderon ynghylch y posibilrwydd o golli swyddi a'r angen i gefnogi addasiad y sectorau gwirfoddol, addysg uwch ac addysg bellach i'r dirwedd ariannu newydd. O ystyried y cymysgedd o ran cyfrifoldebau datganoledig a chyfrifoldebau nad ydynt wedi'u datganoli, dylai Llywodraeth y DU weithio gyda Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r sefyllfa hon, yn y tymor byr a'r tymor hwy.

**147.** Rhaid i'r ddwy lywodraeth gynyddu lefel y gwariant ar ymchwil ac arloesi yng Nghymru, o ystyried cenhadaeth Llywodraeth y DU yn ei Phapur Gwyn Ffyniant Bro, a'r pryder y nododd Llywodraeth Cymru yn ei Strategaeth Arloesedd y bydd llai o arian, ac y bydd gan Gymru lai o reolaeth dros yr arian hwnnw. Hoffai'r Aelodau i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU nodi'r gwaith sydd wedi'i wneud

[131] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 8 Mehefin 2023, Paragraff 72
[132] Llythyr oddi wrth Dehenna Davison AS, yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Ffyniant Bro *(Saesneg yn unig)*

hyd yma i weithio tuag at hyn, a'u cynlluniau i ymgysylltu a chydweithio i ddatblygu hyn.

**Argymhelliad 13.** Dylai Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru gyfleu sut y maent yn ymgysylltu ac yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau'r gwerth gorau o gyfran Cymru o wariant ymchwil ac arloesi y tu allan i Lundain a de-ddwyrain Lloegr.

**Argymhelliad 14.** Dylai Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ymrwymo i'r cyfarfod 6 ffordd gyda'r Prifysgolion, eu cyrff llywodraethu, UCU Cymru a CCAUC, i drafod cyllid pontio ar gyfer y gwyddonwyr a'r staff cysylltiedig a fydd yn colli eu swyddi eleni o ganlyniad i dynnu cronfeydd strwythurol yn ôl, fel y cynigiodd TUC Cymru ac UCU Cymru.

**Argymhelliad 15.** Dylai Llywodraeth y DU weithio ar y cyd â Llywodraeth Cymru i ddatblygu cynllun tymor hwy i ddiogelu ymchwil ac arloesi yn y sector Addysg Uwch yng Nghymru.

# 7. Y rhaglen Lluosi

**148.** Mae'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn cynnwys elfen o gyllid i'r rhaglen Lluosi. Mae canllawiau Llywodraeth y DU ar Lluosi yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, a gyhoeddwyd ym mis Awst 2022, yn nodi:

> *"Multiply is a new up to £559 million programme to help transform the lives of adults across the UK, by improving their functional numeracy skills through free personal tutoring, digital training, and flexible courses. Multiply provision should complement but not duplicate existing provision".*[133]

**149.** Mae awdurdodau lleol wedi nodi ystod o bryderon ynghylch y rhaglen Lluosi. Nododd CLlLC y bu lefel uchel o gymorth ar gyfer y Rhaglen Luosi yng Nghymru yn gyffredinol, a bod y rhaglen wedi bod yn datblygu, ond yn araf.[134] Croesawodd Cyngor RhCT lefel y buddsoddiad, ond dywedodd na ellir tanamcangyfrif maint yr her o ran cynyddu'r capasiti er mwyn cyflawni'r rhaglen.[135] Dywedodd Cyngor Sir Penfro wrth yr Aelodau fod y cynllun yn "dechrau'n araf ac o dan gynnig ar hyn o bryd".

**150.** Nododd CLlLC bryderon ynghylch gallu awdurdodau lleol i wario'r swm llawn o gyllid Lluosi a ddyrennir yn 2024-25. Llwyddodd newidiadau diweddar a oedd yn golygu bod modd trosglwyddo arian blwyddyn 1 o'r cynllun Lluosi nas gwariwyd i flwyddyn 2 a'r blaenoriaeth buddsoddi Pobl a Sgiliau i leddfu ychydig o'r pwysau i sicrhau gwariant llawn. Fodd bynnag, roedd pryderon o hyd na fyddai arian Blwyddyn 3 yn cael ei wario'n llawn erbyn diwedd y rhaglen, gan mai dyma pryd y dyrennir y gyfran uchaf o'r cyllid.

**151.** Dywedodd y Cynghorydd Andrew Morgan, Arweinydd CLlLC ac Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf:

> *"Clarification regarding the ability to adopt flexibility in the use of the Multiply funding has been an ongoing issue. Some flexibility has now been applied to the Year 1 underspend, but restrictions still apply to the Years 2 and 3 allocations where the funding is ringfenced for the sole use of Multiply. Without*

[133] https://www.gov.uk/government/publications/uk-shared-prosperity-fund-prospectus/multiply-in-scotland-wales-and-northern-ireland *(Saesneg yn unig)*
[134] RDF 05 *(Saesneg yn unig)*
[135] RDF 06 *(Saesneg yn unig)*

*ongoing flexibility, full spend within the limited programme period is challenging."*[136]

**152.** Nododd llythyr y Cynghorydd Morgan fod y rhain yn heriau cyffredin a wynebir gan bob un o'r pedwar rhanbarth yng Nghymru a'i fod wedi cyfleu negeseuon cyson i Lywodraeth y DU, a hynny mewn cydweithrediad â CLlLC.

**153.** Ynghyd â Chyngor Sir Penfro, nododd CLlLC nifer o heriau i weithredu Lluosi, gan gynnwys:

- Risgiau sy'n gysylltiedig â datblygu strwythur cyflenwi mawr sy'n ddibynnol ar gyllid Cronfa Ffyniant Gyffredin heb unrhyw sicrwydd y bydd hyn ar gael ar ôl mis Mawrth 2025;
- Prinder tiwtoriaid rhifedd i ddatblygu a chyflwyno'r hyfforddiant;
- Anawsterau wrth recriwtio dysgwyr oherwydd y stigma sydd ynghlwm â bod â diffyg sgiliau sylfaenol;
- Y rhyngweithio cymhleth rhwng Lluosi a chefnogaeth bresennol Llywodraeth Cymru; ac
- Mae'n annhebygol y bydd y ffocws ar rifedd yn unig yn mynd i'r afael ag anghenion llawn dysgwyr, a fydd yn aml hefyd â diffyg sgiliau llythrennedd sylfaenol a sgiliau digidol.

**154.** Dywedodd y Gweinidog fod y rhaglen Lluosi yn tresmasu i faes polisi datganoledig, a bod Llywodraeth y DU yn gwadu cyfle i Gymru ariannu cynlluniau ledled Cymru gyda'r arian hwn.[137]

> *"I think the Multiply programme is a significant problem. It's a deliberate transgression into a plainly devolved area, and I don't think it's going to deliver significant benefits to citizens in Wales. It cuts across and competes with our own essential skills and adult community learning provision. It's been beset by delays in funding and decision making. Money has been held back because the UK Government have recognised that the decision was made so late they can't spend the money usefully this year…"*[138]

[136] Llythyr oddi wrth y Cynghorydd Morgan, Cyngor Bwrdeistref Sirol RhCT *(Saesneg yn unig)*
[137] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 8 Mehefin 2023 – Tystiolaeth ysgrifenedig
[138] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 8 Mehefin 2023, Paragraff 77

**155.** Gwnaeth y Sefydliad Astudiaethau Cyllid hefyd y pwynt ynghylch canolbwyntio ar rifedd yn unig. Awgrymodd nad yw gwario saith gwaith cymaint o arian fesul person ar sgiliau rhifedd nag yn Lloegr yn debygol o fod y ffordd orau o fynd i'r afael â lefelau is o gyflogaeth, cynhyrchiant ac enillion, gan fod lefelau rhifedd yng Nghymru a Lloegr yn debyg.[139] Dywedodd y gallai ymgysylltu gwell â Llywodraeth Cymru fod wedi arwain at glustnodi llai o gyllid i Lluosi yng Nghymru, fel bod cyllid yn cael ei wario ar bolisïau datblygu economaidd eraill yn lle hynny.

**156.** Nodwyd bod dyblygu diangen yn bryder allweddol. Nodir fel a ganlyn ym mhapur y Gweinidog:

> *"Mae rhifedd oedolion wedi'i ddatganoli ac mae Lluosi yn gweithredu mewn cystadleuaeth uniongyrchol â darpariaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned, sydd eisoes ar gael yng Nghymru. Mae hefyd yn peri risg o ddyblygu gwaith y rhaglen Sgiliau Hanfodol Cymru sydd wedi hen ennill ei phlwyf. Bydd hyn yn golygu bod dysgwyr yng Nghymru yn wynebu ystod ddryslyd a chymhleth o opsiynau."*[140]

**157.** Yn ei dystiolaeth lafar, dywedodd y Gweinidog:

> *"It's poorly designed, poorly thought through. It's unnecessary duplication. And if the UK Government had bothered to talk to us, we could have done something that could have worked in this area with what we're already doing, and to add to it."*[141]

**158.** Nodwyd ym mhapur tystiolaeth Colegau Cymru:

> *"There is a concerning lack of joined up thinking in the way the Multiply programme is developing across Wales and even across regions. With each local authority area planning differently, for example some local authorities are going through procurement processes whilst others are operating grant funding projects, there is significant risk of duplication of both effort and funding. Already in one local authority , the overall budget for Multiply has been reduced by more than*

---

[139] Tystiolaeth ysgrifenedig – RDF 21 *(Saesneg yn unig)*
[140] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 8 Mehefin 2023, Eitem 4 – tystiolaeth Llywodraeth Cymru
[141] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 8 Mehefin 2023, Paragraff 77

> *20% with further funding at risk because no delivery has happened in year one."*[142]

**159.** Dywedodd Colegau Cymru wrth y Pwyllgor:

> *"I appreciate there has been some virement of moneys recently from Multiply into people and skills, but it's still a substantial pot of money. It's a Welsh Government policy area, as we know; it needs to be complemented with other interventions. But that's a prime example where there could be a common, consistent approach to strategic, national projects….And if you think that the Welsh FE budget for part-time adult education is around £60 million per year, and we're talking about just over £100 million, talking on adult numeracy alone, it's a massive opportunity, huge potential, but needs to be joined up and done in a way whereby we collaborate with one another and share best practice and work across. It's not just FE involved in this; obviously, third sector, the adult community learning partnerships—."*[143]

**160.** Mynegwyd yr un safbwynt y tu allan i Gymru hefyd o ran sut y mae Lluosi yn gweithredu. Dywedodd Confensiwn Awdurdodau Lleol yr Alban (COSLA) ei fod wedi bod yn anymarferol i awdurdodau lleol yn yr Alban wario cyllid hyd yma, gan fod y cyllid a ddyfarnwyd drwy Lluosi yn 2022-23 yr un fath ag ar gyfer y blynyddoedd ariannol dilynol. Nododd COSLA hefyd fod cynllun Lluosi yn cyfyngu ar hyblygrwydd awdurdodau lleol.[144]

**161.** Gofynnodd y Pwyllgor i'r Gweinidog beth y gellid ei wneud i fynd i'r afael â'r pryderon ynghylch Lluosi. Roedd y Gweinidog o'r farn y byddai sefydlu dull cyflawni amlflwydd wedi bod yn hawdd ei wneud ac wedi gallu rhoi rhywfaint o sicrwydd. Nododd hefyd fod y platfform ar-lein a oedd i fod i weithredu fel 'drws agored' i'r rhaglen wedi ei ohirio. Pwysleisiodd y pwynt am ddiffyg ymgysylltu gan Lywodraeth y DU, gan ddweud ei fod hyd yma wedi bod yn aflwyddiannus wrth sicrhau cyfarfod â'r Gweinidog dros Ffyniant Bro i drafod y mater.

**162.** Gofynnodd y Pwyllgor am dystiolaeth gan un o Weinidogion Llywodraeth y DU ar sut roedd y rhaglen Lluosi yn datblygu ar draws gwahanol rannau o Gymru; beth oedd yn gweithio'n dda gyda'r rhaglen hon, a pha heriau yr oedd sefydliadau'n eu hwynebu wrth gyflawni eu hamcanion. Cyfeiriodd yr ymateb gan

[142] Tystiolaeth ysgrifenedig – RDF 11 *(Saesneg yn unig)*
[143] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 17 Mai 2023, Paragraff 145
[144] Tystiolaeth ysgrifenedig – RDF 19 *(Saesneg yn unig)*

yr Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Ffyniant Bro at gytundeb DLUHC i sicrhau mwy o hyblygrwydd o ran y cyllid a ddyrennir i'r rhaglen Lluosi.[145] Fodd bynnag, nid yw'r penderfyniad hwn yn mynd i'r afael â'r holl faterion a godwyd gan ymchwiliad y Pwyllgor ynghylch datganoli, dyblygu a chydgysylltu. Dywedodd yr ymateb ar Lluosi:

> *"As is the case with all UKSPF interventions, the delivery of Multiply in Wales will not be uniform with projects reflecting local contexts based on decisions made by local authorities and their partners. DLUHC officials regularly discuss Multiply with local authorities and will continue to work closely with them and the WLGA on the delivery of Multiply.*
>
> *UK Ministers recently announced increased flexibility for lead local authorities in Wales to reprofile elements of their Multiply allocation to support wider People and Skills interventions. The decision has been welcomed by local authorities in Wales."*[146]

## Barn y Pwyllgor

**163.** Mae pryderon awdurdodau lleol ynghylch eu gallu i wario eu dyraniadau o fewn yr amserlenni a drefnwyd yn peri risg o ganlyniadau gwael ar gyfer y gronfa hon. Mae'r Aelodau'n croesawu hyblygrwydd Llywodraeth y DU; fodd bynnag, maent yn pryderu y gallai fod angen rhagor o hyblygrwydd i sicrhau'r gwerth gorau am arian.

**164.** Nododd Colegau Cymru fod y rhaglen Lluosi yn enghraifft dda o bwysigrwydd cael dull cyffredin a chyson ledled Cymru. Mynegodd Llywodraeth Cymru bryderon hefyd bod ei diffyg ymwneud â Lluosi wedi arwain at y posibilrwydd o ddyblygu o ran ymyriadau sgiliau presennol Llywodraeth Cymru. Mae'r Aelodau'n siomedig na fu mwy o ymgysylltu rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar y dull strategol o ddarparu'r rhaglen hon. Mae'n bwysig bod unrhyw gynllun olynol yn mynd i'r afael yn llawn â'r mater hwn.

**165.** Mae awdurdodau lleol wedi cwestiynu dull y rhaglen Lluosi o ganolbwyntio ar rifedd yn unig, a chredant y byddai mwy o ffocws ar lythrennedd a sgiliau digidol ochr yn ochr â rhifedd yn helpu i fynd i'r afael ag anghenion llawn y dysgwyr sydd â'r angen mwyaf am gymorth. Hoffem i Lywodraeth Cymru a

[145] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 12 Ionawr 2023, Papur i'w nodi 2.2
[146] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 21 Mehefin 2023, Papur i'w nodi 2.5

Llywodraeth y DU ystyried cynnwys y meysydd hyn mewn unrhyw gynllun ar ôl 2025.

**Argymhelliad 16.** Dylai Llywodraeth y DU ystyried pryderon awdurdodau lleol yng Nghymru ynghylch rhai o'r gofynion ar gyfer cyllid Lluosi, a chymryd unrhyw gamau a fyddai'n sicrhau'r gwerth gorau am arian yr ymrwymwyd iddo gyda'r prosiect hwn. Gallai hyn gynnwys caniatáu amser ychwanegol i awdurdodau lleol wario eu dyraniad.

**Argymhelliad 17.** O ystyried bod y rhaglen Lluosi yn gweithredu mewn gofod datganoledig, dylai Llywodraeth y DU gynnwys Llywodraeth Cymru wrth ddatblygu unrhyw raglen olynol.

**Argymhelliad 18.** O ystyried y pryderon a godwyd gan awdurdodau lleol, dylai Llywodraeth y DU ystyried a ddylai unrhyw gronfa olynol i Lluosi hefyd ganolbwyntio ar lythrennedd a sgiliau digidol er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf posibl i'r rhai a fyddai'n elwa fwyaf o'r cynllun. Dylid ymgynghori â Llywodraeth Cymru fel rhan o'r ystyriaethau hyn.

**Argymhelliad 19.** Dylai Llywodraeth y DU weithio gyda Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol a cholegau i nodi a mynd i'r afael ag unrhyw achosion o ddyblygu o ganlyniad i'r rhaglen Lluosi.

# 8. Y Gronfa Ffyniant Bro

**166.** Mae'r Gronfa Ffyniant Bro yn disodli Cronfa Trefi Lloegr. Fe'i cyhoeddwyd yn Adolygiad o Wariant y DU ym mis Tachwedd 2020 fel mesur Lloegr ac y byddai Llywodraeth Cymru yn cael swm canlyniadol Barnett ohono.[147] Fodd bynnag, ym mis Chwefror 2021, cadarnhaodd Llywodraeth y DU y byddai'n darparu'r Gronfa Ffyniant Bro ar draws y DU gyfan heb unrhyw ymgynghoriad arno na gohebiaeth amdano ymlaen llaw. Ni chafodd Llywodraeth Cymru unrhyw rôl yn y gwaith o ddatblygu a chyflwyno'r Gronfa Ffyniant Bro. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd Gweinidog yr Economi:

> *"Mae'r Gronfa Ffyniant Bro yn enghraifft arall o Lywodraeth y DU yn defnyddio pwerau cymorth ariannol Deddf Marchnad Fewnol y DU i benderfynu ar wariant yn uniongyrchol mewn meysydd datganoledig gan osgoi Llywodraeth Cymru a'r Senedd."*

**167.** Cyhoeddodd Llywodraeth y DU y prosiectau a oedd yn llwyddiannus yn yr ail gylch ar 19 Ionawr 2023, ar ôl y disgwyliad iddi wneud y cyhoeddiad yn ystod hydref 2022. Mae'r oedi hwn wedi rhoi pwysau ychwanegol ar awdurdodau lleol i gyflawni ac wedi golygu bod y prosiectau yn destun chwyddiant cynyddol. Nododd CLlLC fod y Gronfa Ffyniant Bro a'r Gronfa Ffyniant Gyffredin wedi wynebu heriau o ran amserlenni cyflawni tynn iawn a bod yr amserlenni tynn hyn ar gyfer gwneud cais ar gyfer y Gronfa Ffyniant Bro wedi golygu bod cynghorau'n dibynnu'n helaeth ar ymgynghorwyr allanol, gan greu baich ariannol ychwanegol heb unrhyw sicrwydd o lwyddiant.[148]

**168.** Disgwylir trydydd cylch, sef y cylch terfynol, o gyllid y Gronfa Ffyniant Bro yn 2024 er ei fod yn debygol o fod yn sylweddol is na'r ddau gylch cyntaf, o gofio bod tua £1 biliwn yn parhau i fod ar gael ar gyfer y DU gyfan o gyfanswm dyraniad cyllid tair blynedd y Gronfa o £4.8 biliwn. Disgwylir i brosiectau'r Gronfa Ffyniant Bro ddod i ben ym mis Rhagfyr 2024 a disgwylir gwario'r cyllid erbyn 31 Mawrth 2025 (ac eithrio o dan amgylchiadau eithriadol).

**169.** Mae'r broses o wneud cais yn un gystadleuol ac yn gofyn am lawer o adnoddau gan awdurdodau lleol, ac felly mae dadansoddiad cost a budd yn cyfrannu at lwyddiant cronfa o'r fath. Fel y nodir ym mhennod 1 o'r adroddiad

[147] Pan gynllunnir gwariant cyhoeddus ychwanegol yn Lloegr, cyfeirir at yr ychwanegiadau cyfatebol a wneir i ddyraniadau cyllid y gweinyddiaethau datganoledig fel "arian canlyniadol Barnett".
[148] Tystiolaeth ysgrifenedig – RDF 05 *(Saesneg yn unig)*

hwn, yn y cylch cyllido cyntaf, dyfarnwyd £121.4 miliwn i 6 awdurdod lleol, ac roedd gwerth £172 miliwn o gynigion Cymru yn aflwyddiannus. Yn yr ail gylch, dyfarnwyd £208.2 miliwn i 11 awdurdod lleol, ac roedd gwerth £582 miliwn o geisiadau yn aflwyddiannus. Holodd CLlLC ynglŷn â lefel y 'ffyniant bro' a oedd yn deillio o'r cyllid, a natur y broses ymgeisio o ran y defnydd dwys o adnoddau i awdurdodau lleol.

**170.** Tynnodd Gweinidog yr Economi sylw hefyd at y diffyg cysylltiad rhwng y Cronfa Ffyniant Bro a dulliau ariannu eraill er mwyn sicrhau newid mewn ffordd strategol:

> *"The levelling-up funds are discrete bids that don't appear to be connected to a wider whole. There's value in doing some of those, but if you're interested in strategic improvement, then, actually, that's not the way to deliver it."*[149]

**171.** Ym marn y Gweinidog, byddai'r gronfa yn gallu gwneud mwy o wahaniaeth o'i darparu mewn ffordd wahanol, waeth beth fo'r arweiniad gwleidyddol yn lleol, a nododd fod Pwyllgor Dethol Tŷ'r Cyffredin wedi gwneud yr un pwynt:

> *"I think you'll find that the levelling-up fund will deliver something that people will look at and say, 'That made a difference.' The challenge is, if you'd used those funds in a more strategic way with a longer time frame, would they have made more difference? I think the answer to that is 'yes'."*[150]

**172.** Dywedodd y Gweinidog, gan dynnu sylw at y ffaith nad oedd pum awdurdod lleol wedi derbyn unrhyw arian o'r Gronfa Ffyniant Bro - Sir y Fflint, Bro Morgannwg, Sir Fynwy, Casnewydd a Merthyr Tudful:

> *"….if you look at need, you'd find it very hard to say that something called a levelling-up fund, that is supposed to address need, does not provide resource into Merthyr. You could make cases for all of the other local authorities as well in terms of the town of Barry, parts of Monmouthshire, and…there will be communities who say, 'Actually, there's a challenge here that you'd want to try to address', but, actually, they've not got anything, and it definitely cuts across the ability to make strategic choices. It's an undoubted barrier. And don't take my word for it; there's a cross-party group of MPs with a majority*

[149] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 8 Mehefin 2023, Paragraff 54
[150] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 8 Mehefin 2023, Paragraff 91

> *who are supporting the current Government who say that this has been a problem as well."*[151]

**173.** Beirniadodd Sefydliad Materion Cymreig y Gronfa Ffyniant Bro fel cyllid sydd wedi'i ailbecynnu a'i ailenwi y dylai awdurdodau lleol fod wedi cael mynediad ati fel buddsoddiad cyfalaf mewn seilwaith, ond yn lle hynny bu'n rhaid iddynt wneud cais amdani mewn modd cystadleuol, nad oedd er budd gorau Cymru yn ei farn ef.

> *"When you look at Wales's budget overall, most of the funding that Welsh Government have available to them when they talk about economic development, which is within devolved competency, is all predisposed to service delivery, whether that's healthcare, whether that's public services more widely, and that, actually, the EU funding was a real big top-up that enabled Welsh Government to do transformative economic projects, because it was able to deliver that on an all-Wales basis. It helped to establish Wales as an economic region in and of itself within wider Europe. So, you had projects that worked on a pan-Wales basis, whether that was higher education, or whether that was infrastructure spend that crossed council lines. Each of those aren't going to be delivered under the levelling-up fund because it's down at local council level."*[152]

## Barn y Pwyllgor

**174.** Mae'r dystiolaeth a ddaeth i law yn codi cwestiynau ynghylch tegwch ac effeithlonrwydd y broses ariannu gystadleuol, yn enwedig ar gyfer awdurdodau lleol llai sydd â llai o gapasiti i ddarparu adnoddau ar gyfer y broses o gyflwyno cais. Mae'r Pwyllgor yn croesawu sylwadau'r Gweinidog dros Ffyniant Bro fod Llywodraeth y DU yn bwriadu symud oddi wrth gronfeydd cystadleuol gan ei bod yn cydnabod eu bod yn gallu bod yn feichus i awdurdodau lleol, ac mae'n credu y dylai unrhyw olynydd i'r Gronfa Ffyniant Bro bresennol gael ei dyrannu i ardaloedd ar sail angen.

**175.** Mae'r Pwyllgor wedi clywed gan gynrychiolwyr awdurdodau lleol fod yr ansicrwydd parhaus ynghylch trydydd cylch y Gronfa Ffyniant Bro yn destun pryder, o ystyried bod angen gwario'r cyllid erbyn mis Mawrth 2025, a hoffai i Lywodraeth y DU egluro'r amserlenni ar gyfer hyn. Mae'r Pwyllgor hefyd yn nodi

---

[151] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 8 Mehefin 2023, Paragraff 96
[152] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 4 Mai 2023, Paragraffau 39-40

pryderon a godwyd mewn sawl ardal ynghylch y rhwystrau i wneud penderfyniadau strategol o ganlyniad i'r ffaith nad oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw rôl o gwbl yn y broses o ddatblygu'r rhaglen gyllido hon.

**Argymhelliad 20.** Os bydd y Gronfa Ffyniant Bro yn parhau ar ôl 2025, ni ddylai gael ei darparu drwy geisiadau cystadleuol, a dylid dyrannu cyllid i'r ardaloedd hynny sydd â'r angen mwyaf.

**Argymhelliad 21.** Os bydd y Gronfa Ffyniant Bro yn parhau ar ôl mis Mawrth 2025, neu'n cael ei symleiddio'n gronfa ehangach, dylai fod gan Lywodraeth Cymru fwy o rôl yn ei datblygiad ac yn y broses o gytuno ar sut y caiff ei gweinyddu.

**Argymhelliad 22.** Dylai Llywodraeth y DU egluro pryd y bydd Cylch 3 o'r Gronfa Ffyniant Bro yn agor cyn gynted â phosibl.

# 9. Cyllid yn y dyfodol y tu hwnt i 2025

**176.** Ystyriodd yr ymchwiliad y mater o symleiddio cyllid yn y dyfodol, a'r posibilrwydd o dynnu popeth at ei gilydd i greu 'uwch-gronfa' neu gadw'r Gronfa Ffyniant Gyffredin ar wahân i ffrydiau cyllido eraill. Er gwaethaf rhinweddau lleihau biwrocratiaeth, roedd pryder y gallai Cymru fod ar ei cholled pe na bai cyllid yn cael ei gadw ar wahân. Amlinellodd yr Athro Steve Fothergill sawl dadl pam y dylai'r Gronfa Ffyniant Gyffredin barhau fel ffrwd gyllido ar wahân:

- Byddai'n amlwg yn 'anrhydeddu' ymrwymiad Llywodraeth y DU i sefydlu cronfeydd i gymryd lle Cronfeydd Strwythurol yr UE;
- Dyma'r unig un o'r cronfeydd ffyniant bro sydd i'w dyrannu drwy fformiwla, yn hytrach na thrwy wneud cais cystadleuol neu wahoddiad i wneud cais.
- Mae dyrannu'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn targedu ardaloedd llai llewyrchus yn gryf. Mae dyraniad y pen i Gymru 20 gwaith yr hyn a gaiff ei ddyfarnu i dde-ddwyrain Lloegr. Nid yw yr un o'r cronfeydd ffyniant bro eraill yn targedu hyn yn gryf; ac
- Mae llawer o gronfeydd ffyniant bro Llywodraeth y DU ar gyfer Lloegr yn unig, ac felly mae'n anodd gweld sut y gellid uno'r Gronfa Ffyniant Gyffredin i mewn iddynt mewn ffordd sy'n gweithio i'r gwledydd datganoledig.

**177.** Roedd yr Athro Fothergill hefyd o'r farn y dylai cyllid blynyddol ar gyfer y Gronfa Ffyniant Gyffredin gael ei gynyddu o 2025 i gymryd chwyddiant i ystyriaeth, efallai tua 20 y cant, ac y bydd angen i Lywodraeth y DU ymrwymo £3.5 biliwn arall mewn cyllid erbyn 2027-28 i gyd-fynd â lefel y cyllid a ddarperir trwy Gronfeydd Strwythurol.

**178.** Hoffai Confensiwn Awdurdodau Lleol yr Alban[153] (COSLA) gael fframwaith hirdymor, amlflwydd ar gyfer cyllid ôl-2025, ac mae wedi galw am ddull partneriaeth rhwng Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth y DU sy'n caniatáu ar gyfer cyfuno cyllid gan y ddwy lywodraeth mewn rhaglenni strategol. Hoffai weld ffrydiau ariannu Llywodraeth y DU yn cael eu symleiddio, a'u dyrannu i awdurdodau lleol yn hytrach na bod angen gwneud cais amdanynt.

[153] Tystiolaeth ysgrifenedig – RDF 19 *(Saesneg yn unig)*

**179.** Dywedodd CGGC[154] mai gwers allweddol yw bod yn rhaid i'r gwaith cynllunio ar gyfer cyllid ôl-2025[155] ddechrau yn gynt nag ar gyfer y cyfnod cyllido presennol ac roedd Chwarae Teg yn rhannu'r un farn. Dywedodd hefyd fod yn rhaid treulio'r rhan fwyaf o flwyddyn gyntaf y cyfnod cyllido ar ddatblygu a chymeradwyo cynlluniau buddsoddi rhanbarthol a sefydlu strwythurau a phrosesau lleol a rhanbarthol. Dylai hyn, ym marn CGGC, fod wedi'i gwblhau cyn lansio'r gronfa er mwyn sicrhau trosglwyddiad llyfnach.

**180.** Mae Chwarae Teg yn credu bod angen dysgu gwersi hefyd o'r heriau y mae sefydliadau'r trydydd sector wedi'u hwynebu o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin a bod angen amser ychwanegol i baratoi ar gyfer systemau cyllido er mwyn sicrhau bod y trydydd sector a'r rhai sy'n gweinyddu'r gronfa yn gallu sicrhau llwyddiant o ran unrhyw system sy'n disodli Cronfeydd Strwythurol yr UE.[156]

**181.** Nododd canfyddiadau o waith ymgysylltu'r Pwyllgor y potensial ar gyfer cydweithredu cryfach ar lefel awdurdod lleol fel nod pwysig yn y dyfodol:

> *"O'i wneud yn dda, gallai roi cyfle ar gyfer rhai newidiadau tymor hwy yn y ffordd y mae awdurdodau lleol yn gweithio gyda'r gymuned a'r sector gwirfoddol a fyddai'n fuddiol o ran grymuso gweithredu cymunedol a'r canlyniadau cadarnhaol y mae hyn yn eu creu – o ran llesiant, dylanwad, atal, gwerthoedd cymdeithasol ac ati."*
>
> *"Mae'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn cynnig cyfle i ddechrau sgyrsiau gydag awdurdodau lleol, a gobeithio yn meithrin perthnasoedd parhaol ar y lefel honno, yn ogystal â datblygu partneriaethau newydd a chynigion cyflawni ar gyfer ein pobl ifanc, mewn mwy o ardaloedd ledled Cymru."*

**182.** Roedd rhai ymatebwyr hefyd yn teimlo bod y ffrydiau cyllido newydd yn cynnig mwy o botensial i dreialu prosiectau newydd:

> *"Mae'n caniatáu i gynigion prosiect newydd gael eu profi fel cynlluniau peilot, a thystiolaeth i'w chasglu drwy gyflawni ac ymgysylltu â chymunedau, ar gyfer cyllid mwy hirdymor posibl yn y dyfodol, yn ogystal â phrosiectau eraill a allai ddod yn hunangynhaliol yn ariannol."*

[154] Tystiolaeth ysgrifenedig – RDF 16 *(Saesneg yn unig)*
[155] Tystiolaeth ysgrifenedig – RDF 15 *(Saesneg yn unig)*
[156] Tystiolaeth ysgrifenedig – RDF 15 *(Saesneg yn unig)*

## Barn y Pwyllgor

**183.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r rhybudd gan yr Athro Fothergill, Athro datblygu economaidd rhanbarthol ym Mhrifysgol Sheffield Hallam, y gallai Cymru fod ar ei cholled o ran cyllid datblygu rhanbarthol ôl-UE yn y dyfodol, a'r dadleuon cryf o blaid cadw'r Gronfa Ffyniant Gyffredin ar wahân i gronfeydd eraill. Ar y cyfan, ac yn absenoldeb dadleuon cryf i'r gwrthwyneb, mae'r Pwyllgor yn teimlo y byddai Cronfa Ffyniant Gyffredin ar wahân, ond wedi'i diwygio, yn ddull gwell at y dyfodol.

**Argymhelliad 23.** Dylai Llywodraeth y DU barhau i weithredu Cronfa Ffyniant Gyffredin ar wahân, ond wedi'i diwygio, ar ôl i'r gronfa bresennol ddod i ben ym mis Mawrth 2025.

**Argymhelliad 24.** Dylai Llywodraeth y DU egluro beth yw ei bwriad o ran y Gronfa Ffyniant Bro a'r Gronfa Ffyniant Gyffredin ar ôl 2025 cyn gynted â phosibl.

# Atodiad 1: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar.

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r sesiynau tystiolaeth lafar ar wefan y Pwyllgor.

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| **4 Mai 2023** | **Yr Athro Steve Fothergill,**<br>Canolfan Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol Ranbarthol,<br>Prifysgol Sheffield Hallam<br>**Adam Hawksbee, Dirprwy Gyfarwyddwr,**<br>Onward<br>Joe Rossiter, Rheolwr Polisi a Materion Allanol<br>Y Sefydliad Materion Cymreig<br>**Y Cynghorydd James Gibson-Watt, Arweinydd**<br>Cyngor Sir Powys<br>**Y Cynghorydd Mark Norris, Aelod Cabinet dros Ddatblygu a Ffyniant,**<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf<br>**Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn, Arweinydd,**<br>Cyngor Gwynedd<br>**Y Cynghorydd Rob Stewart, Arweinydd,**<br>Cyngor Abertawe |
| **17 Mai 2023** | **James Scorey, Is-Bennaeth,**<br>Coleg Caerdydd a'r Fro (yn cynrychioli Colegau Cymru)<br>**Kiera Marshall, Dirprwy Bennaeth Polisi (Cymru),**<br>Ffederasiwn Busnesau Bach<br>**Amanda Wilkinson, Cyfarwyddwr**<br>Prifysgolion Cymru<br>**Matthew Brown, Cyfarwyddwr Cyflenwi a Datblygu,**<br>Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru |
| **8 Mehefin 2023** | **Vaughan Gething AS, Gweinidog yr Economi**,<br>Llywodraeth Cymru<br>**Duncan Hamer, Cyfarwyddwr Gweithrediadau – Busnes a Rhanbarthau,**<br>Llywodraeth Cymru |

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| | **Aine Gawthorpe, Dirprwy Gyfarwyddwr, Trawsnewid Diwydiannol a'r Economi Sylfaenol,** Llywodraeth Cymru<br>**Peter Ryland, Prif Weithredwr, Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru,** Llywodraeth Cymru |

# Atodiad 2: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd yr unigolion a'r sefydliadau canlynol dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol ar gael ar wefan y Pwyllgor.

| Cyfeirnod | Sefydliad |
|---|---|
| **RDF 01** | Onward |
| **RDF 02** | PLANED |
| **RDF 03** | Yr Athro Steve Fothergill |
| **RDF 04** | Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent |
| **RDF 05** | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) |
| **RDF 06** | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| **RDF 07** | Y Ffederasiwn Busnesau Bach (FSB Cymru) |
| **RDF 08** | Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) |
| **RDF 09** | Cyngor Sir Penfro |
| **RDF 10** | Prifysgol Abertawe |
| **RDF 11** | Colegau Cymru |
| **RDF 12** | Cynghrair Cymunedau Diwydiannol Cymru |
| **RDF 13** | Prifysgolion Cymru |
| **RDF 14** | Banc Datblygu Cymru |
| **RDF 15** | Chwarae Teg |
| **RDF 16** | Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) |
| **RDF 17** | Cyngor Sir Fynwy |
| **RDF 18** | Undeb Amaethwyr Cymru |
| **RDF 19** | Confensiwn Awdurdodau Lleol yr Alban (COSLA) |
| **RDF 20** | Cymdeithas Ymgynghorwyr a Pheirianwyr Cymru (ACE) |
| **RDF 21** | Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid |
| **RDF 22** | Cwmpas |

| Cyfeirnod | Sefydliad |
|---|---|
| **RDF 23** | Prifysgol Metropolitan Caerdydd |
| **RDF 24** | Prifysgol Caerdydd |
| **RDF 25** | Y Sefydliad Materion Cymreig |
| **RDF 26** | Sefydliad Bevan |
| **RDF 27** | Y Gymdeithas Llywodraeth Leol |

## Gwybodaeth Ychwanegol

| Teitl | Dyddiad |
|---|---|
| Llythyr oddi wrth Gyngres yr Undebau Llafur (TUC) Cymru | 16 Mehefin 2023 |
| Llythyr oddi wrth Dehenna Davison AS, yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Ffyniant Bro | 13 Mehefin 2023 |
| Llythyr oddi wrth y Cadeirydd at Gyngres yr Undebau Llafur Cymru (TUC Cymru) | 19 Mai 2023 |
| Llythyr oddi wrth y Cadeirydd at Undeb Prifysgolion a Cholegau Cymru (UCU Cymru) | 19 Mai 2023 |
| Llythyr oddi wrth y Cadeirydd at UNSAIN Cymru | 19 Mai 2023 |
| Llythyr oddi wrth y Cynghorydd Morgan, Cyngor Bwrdeistref Sirol RhCT | 15 Mai 2023 |
| Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad | 12 Mai 2023 |
| Llythyr oddi wrth y Cadeirydd at y Cynghorydd Andrew Morgan, Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | 9 Mai 2023 |
| Llythyr oddi wrth y Cadeirydd at y Gweinidog Ffyniant Bro – Llywodraeth y DU | 11 Mai 2023 |
| Llythyr oddi wrth y Cadeirydd at y Gweinidog Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau, a'r Gweinidog Cysylltiadau Rhynglywodraethol | 2 Mawrth 2023 |